

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:

7/2020

DYDDIAD CYHOEDDI:

IONAWR 30, 2020

Ymweliadau ag Atyniadau Twristiaeth yng Nghymru 2018

Adroddiad ar gyfer Croeso Cymru

Ymweliadau ag Atyniadau Twristiaeth yng Nghymru – 2018

Ymchwil ar ran Croeso Cymru

Fiona McAllister, Beaufort Research Ltd.

The logo for Beaufort Research, featuring the company name in white lowercase letters on a dark purple rectangular background.

beaufortresearch

Barn yr ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid barn Llywodraeth Cymru o reidrwydd

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:

Ymchwil Twristiaeth

Llywodraeth Cymru

Canolfan QED,

Y Brif Rodfa

Ystad Ddiwydiannol Trefforest

Trefforest CF37 5YR

Ffôn: 0300 060 4400

E-bost: ymchwiltwristiaeth@llyw.cymru

	Rhestr o acronymau a sut i ddarllen y tablau	1
	Crynodeb gweithredol	3
1.	Cyflwyniad	7
1.1	Cefndir	7
1.2	Diffiniad o atyniad twristiaeth	7
1.3	Amcanion	8
1.4	Cefndir economaidd a hinsoddol 2018.....	8
2.	Methodoleg.....	10
2.1	Cynnal y gwaith ymchwil	10
2.2	Dosbarthiad a chyfradd ymateb yr arolwg.....	11
3.	Y deg atyniad uchaf am ddim a'r rhai â thâl (yn ôl nifer ymweliadau)....	13
3.1	Y deg atyniad uchaf â thâl	13
3.2	Y deg atyniad uchaf am ddim	14
4.	Nifer yr ymweliadau 2018	16
5.	Dadansoddiad cymharol o ymweliadau ag atyniadau twristiaeth 2018 / 2017	26
5.1	Cymariaethau cyffredinol	26
5.2	Cymharu tâl mynediad ar gyfer atyniadau â thâl.....	29
6.	Gweithrediadau	33
6.1	Symudiad refeniw gros	33
6.2	Cyflogaeth 2018.....	35
6.3	Gwariant marchnata 2018 / 2017.....	39
7.	Proffil ymwelwyr 2018	40
8.	Atyniadau a oedd wedi ymateb yn 2018 (yn nhrefn yr wyddor).....	45

ATODIADAU

Atodiad I: Holiadur

Atodiad II: Nifer yr Ymweliadau 2015-2018

Atodiad III: Y Deg Atyniad Uchaf yn ôl Rhanbarth 2018

Rhestr o acronymau a sut i ddarllen y tablau

Hoffai Croeso Cymru a Beaufort Research ddiolch i'r holl gynrychiolwyr a'r gweithredwyr yn y sector atyniadau sydd wedi darparu gwybodaeth ar gyfer yr arolwg y mae'r adroddiad hwn wedi'i seilio arno. Heb eu cymorth bob blwyddyn, ni fyddai'n bosibl casglu'r ffigurau hyn.

Amcangyfrifon / ffigurau ymwelwyr nad oeddent ar gael

Mae'r ffigurau a nodir yn yr adroddiad hwn wedi'u nodi gyda phob ewyllys da ar sail yr wybodaeth a ddarparwyd gan berchnogion yr atyniadau. Sylwer y gall fod yn anodd gwahaniaethu rhwng gwahanol fathau o ymwelwyr mewn rhai atyniadau penodol.

Os cafodd y ffigyrau ymwelwyr eu hamcangyfrif gan weithredwyr, mae hyn wedi'i nodi â seren (*) yn dilyn nifer yr ymwelwyr yn 2018 yn adran 8 tuag at ddiwedd yr adroddiad hwn.

Mynediad

Os oes gan atyniad dâl mynediad, nodir y tâl mynediad ar gyfer oedolyn yn ystod tymor prysur 2018. Os dywedodd yr atyniad eu bod yn codi am fynediad ond eu bod heb ddarparu'r tâl mynediad, mae wedi'i nodi ag NP (= heb ei ddarparu) yn adran 8.

Y taliadau mynediad sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad yw'r rhai a ddarparwyd ar gyfer Beaufort gan weithredwyr. Gall y rhain fod yn wahanol i'r rhai a ddyfynnir ar wefannau.

Talfyriadau

CATEGORI	ACRONYM	ESBONIAD
Rhanbarthau	M	Canolbarth Cymru
	N	Gogledd Cymru
	SE	De-ddwyrain Cymru
	SW	De-orllewin Cymru
Perchnogaeth	AC-NMW	Amgueddfa Cymru
	Cadw †	Cadw (Henebion Cymru)
	DCWW	Dŵr Cymru Welsh Water
	LA / NP	Awdurdod Lleol / Parc Cenedlaethol
	NRW	Cyfoeth Naturiol Cymru
	NT †	Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
	PO	Perchennog preifat (perchnogion unigol, sefydliad/ymddiriedolaeth preifat ac ati)
	RSPB	Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar
Atyniadau twristiaeth	A / A	Atyniad antur / gweithgareddau
	CP	Parc gwledig, gardd, atyniad naturiol arall
	Fferm	Fferm / bridiau prin
	F / D	Atyniad bwyd neu ddiod
	HP	Eiddo hanesyddol, cestyll, caerau, tai hanesyddol, palasau, henebion, safleoedd archeolegol, eiddo hanesyddol arall, canolfannau treftadaeth, mannau addoli
	IND	Atyniad diwydiannol/crefft
	MAG	Amgueddfeydd a/neu orielau celf, canolfannau celfyddydau
	R / T	Atyniad / teithiau rheilffordd / tramffordd / trafrnidiaeth /
	SC / T	Canolfan wyddoniaeth / dechnoleg
	Thema	Parciau hamdden, parciau thema
	WL	Atyniad bywyd gwyllt neu warchodfa natur
	OTH	Atyniad arall
Math o gyflogai	FT	Llawn-amser
	PT	Rhan-amser
	UV	Gwirfoddolwr di-dâl

† Ni fydd atyniadau yn y categorïau perchnogaeth Cadw neu Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ond yn gallu cael eu rheoli gan sefydliadau o'r fath.

Drwyddi draw yn yr adroddiad hwn, mae samplau o ddeg neu lai yn cael eu huwchleuo yn goch a'u dangos mewn llythrennau italig i ddynodi'r angen i gymryd gofal wrth ddehongli'r canlyniadau.

i. Y cyfanswm a oedd yn rhan o'r arolwg a maint y sampl

- Cafodd cyfanswm o 485 o atyniadau unigol y credwyd eu bod yn cyd-fynd â'r diffiniad o atyniad twristiaeth eu gwahodd i gymryd rhan yn arolwg 2018. Ochr yn ochr â hyn, darparwyd data ar wahân ar gyfer 85 o atyniadau gan sefydliadau sy'n gyfrifol am niferoedd mawr o atyniadau yng Nghymru (Amgueddfa Cymru, Cadw, Dŵr Cymru, Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Cyfoeth Naturiol Cymru ac RSPB Cymru). Roedd y cyfanswm a oedd yn rhan o'r arolwg ar gyfer 2018 felly'n 570.
- Fe ymatebodd 268 o atyniadau i'r arolwg yn 2018, gyda 248 yn gallu darparu niferoedd ymweliadau. Mae hyn yn cyfateb i gyfradd ymateb o 47% ar y cyfan (yr uchaf ers 2007).

ii. Ymweliadau 2018

- Gwnaed 22.2 miliwn o ymweliadau ag atyniadau yng Nghymru a gymerodd ran yn arolwg 2018: Roedd 61% o'r ymweliadau yn 2018 yn ymwneud ag atyniadau am ddim ac roedd 39% yn ymwneud ag atyniadau â thâl.
- Ymhlith yr holl atyniadau a ymatebodd i'r arolwg, roedd y 23 a wnaeth nodi 200,000 neu fwy o ymwelwyr yn rhoi cyfrif am bron i hanner yr holl ymweliadau a gofnodwyd yn 2018.
- Roedd rhanbarthau Gogledd Cymru a De-ddwyrain Cymru ill dau'n rhoi cyfrif am gyfran uwch o ymweliadau yn 2018 na'u cyfran o atyniadau. Roedd y gwrthwyneb yn wir am Ganolbarth Cymru ac, i raddau llai, De-orllewin Cymru. Mae hyn yn gysylltiedig â'r nifer fwy o atyniadau llai yn yr ardaloedd hyn.
- Cafodd pob atyniad a ymatebodd i'r arolwg gyfartaledd o 89,610 o ymweliadau yn 2018: roedd nifer cyfartalog yr ymweliadau yn 2018 ar ei uchaf (sef 107,676) yn Ne-ddwyrain Cymru, ac ar ei isaf (sef 52,573) yng Nghanolbarth Cymru.
- Amgueddfeydd ac orielau celf ac atyniadau bywyd gwyllt / gwarchodfeydd natur gafodd y gyfran uchaf o ymweliadau ar y cyfan (sef 25.4% a 22.2% yn y drefn honno o'r holl ymweliadau).
- Cafodd dros bedwar ym mhob deg ymweliad ag atyniadau yng Nghymru yn 2018 (43.6%) eu gwneud i atyniadau mewn perchnogaeth breifat (5.3 miliwn i rai am ddim a 4.4 miliwn i rai â thâl).

iii. Ymweliadau 2017 - 2018

Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn edrych ar dueddiadau yn nifer yr ymweliadau ag atyniadau yng Nghymru, gan gymharu ffigurau yn 2017 a 2018. Sylwer nad yw'r adran hon ond yn ymwneud â'r atyniadau hynny a wnaeth ddarparu data yn ystod **y ddwy flynedd** (171 o atyniadau).

- Cafwyd cynnydd o 4.4% yn nifer yr ymweliadau â'r atyniadau hyn o 2017 i 2018.
- Gwelwyd cynnydd yn nifer yr ymweliadau ag atyniadau am ddim o un flwyddyn i'r llall, gyda'r nifer yn codi 9.2% (o 8.7 miliwn yn 2017 i 9.5 miliwn yn 2018), tra bo ymweliadau ag atyniadau â thâl wedi gostwng 1.4% (o 7.1 miliwn yn 2017 i 7.0 miliwn yn 2018).
- Fe gynyddodd niferoedd yr ymwelwyr ym mhob atyniad ym mhob ardal yng Nghymru ac eithrio'r De-orllewin, lle gwelwyd gostyngiad bach o 2.2% rhwng 2017 a 2018; yn Ne-ddwyrain Cymru y gwelwyd y cynnydd mwyaf o un flwyddyn i'r llall (o 10.5%).
- Cynyddodd ymweliadau â safleoedd Cyfoeth Naturiol Cymru 9.8% o un flwyddyn i'r llall, gyda chynnydd mawr hefyd yn amlwg ar gyfer atyniadau mewn perchnogaeth breifat ac eiddo'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Gostyngodd ymweliadau â safleoedd cadw 6.7% rhwng 2017 a 2018, serch hynny. Cynyddodd prisiau mynediad ac aelodaeth Cadw yn 2018.
- Cododd taliadau mynediad cyfartalog ar gyfer oedolion ymhlith y rhai a gymerodd ran yn ystod y ddwy flynedd ychydig dros 1% rhwng 2017 a 2018 i £8.59; roedd maint y cynnydd mewn prisiau mynediad ar gyfer plant ychydig yn fwy, a hwythau wedi codi 3% i £5.45.
- Ymhlith yr holl atyniadau â thâl a gymerodd ran yn arolwg 2018, y tâl mynediad cyfartalog ar gyfer oedolion yn ystod y tymor prysur oedd £9.42 a'r tâl mynediad cyfartalog ar gyfer plentyn oedd £6.74.
- Roedd taliadau mynediad ar gyfer oedolion ar eu huchaf yng Ngogledd Cymru (cyfartaledd o £11.21), ac ar eu hisaf yn Ne-ddwyrain Cymru (cyfartaledd o £7.75). O ran categorïau'r atyniadau, atyniadau antur / gweithgareddau oedd yn codi'r prisiau mynediad uchaf ar oedolion (cyfartaledd o £21.55), tra bo taliadau amgueddfeydd ac orielau celf gyda'r isaf (cyfartaledd o £5.37).

iv. Gweithrediadau

- Nododd bron i hanner yr atyniadau a gymerodd ran (47.1%) gynnydd mewn refeniw gros yn 2018 o'i gymharu â 2017; dywedodd ychydig yn llai na phedwar ym mhob deg bod eu refeniw'n debyg, tra bo un ym mhob chwech wedi nodi gostyngiad yn eu refeniw gros o un flwyddyn i'r llall.
- Nododd atyniadau a gymerodd ran gynnydd o 3.3% mewn refeniw gros yn 2018 o'i gymharu â 2017 ar y cyfan. Atyniadau bwyd neu ddiod ac atyniadau bywyd gwyllt / gwarchodfeydd natur a brofodd y cynnydd uchaf (sef +13.5% a +13% yn y drefn honno).
- Fel yn 2017, gwirfoddolwyr di-dâl oedd yn rhoi cyfrif am y gyfran fwyaf o weithwyr mewn atyniadau a gymerodd ran yn arolwg 2018 (47.2%) er bod y gyfran hon wedi gostwng o un flwyddyn i'r llall. Roedd staff llawn-amser yn rhoi cyfrif am bron i dri ym mhob deg gweithiwr ac roedd staff rhan-amser yn rhoi cyfrif am oddeutu un ym mhob pedwar gweithiwr yn 2018.
- Dywedodd y rhan fwyaf o atyniadau na fu unrhyw newid yn eu gwariant marchnata yn 2018 o'i gymharu â 2017, gyda thua thri ym mhob pedwar (73.6%) yn dweud ei fod yn debyg. Dywedodd 16% arall ei fod wedi codi o un flwyddyn i'r llall, tra bo 10.4% wedi nodi gostyngiad.

v. Proffil ymwelwyr

- Oedolion oedd y mwyafrif o'r ymwelwyr ar y cyfan (70.4%) i atyniadau a gymerodd ran yn arolwg 2018. Atyniadau bwyd neu ddiod, atyniadau diwydiannol / crefft ac amgueddfeydd ac orielau gafodd y gyfran uchaf o ymwelwyr sy'n oedolion, tra'i bod yn wir mai atyniadau 'eraill' (a oedd yn cynnwys dwy ganolfan gweithgareddau dan do), atyniadau â thema / parciau hamdden a chanolfannau gwyddoniaeth / technoleg oedd fwyaf tebygol o ddenu plant.
- Roedd bron i hanner yr ymwelwyr ag atyniadau a gymerodd ran yng Nghymru yn 2018 yn ymwelwyr lleol (48.6%), gyda phedwar ym mhob deg (40.3%) yn dod o weddill y DU a thuag un ym mhob deg (11.1%) o wledydd tramor.
- Atyniadau diwydiannol / crefft, atyniadau bwyd neu ddiod, eiddo hanesyddol a chanolfannau gwyddoniaeth / technoleg gafodd y gyfran uchaf o ymwelwyr tramor yn 2018, tra'i bod yn wir mai'r atyniadau 'eraill' ac atyniadau fferm / bridiau prin oedd fwyaf tebygol o ddenu ymwelwyr lleol. Atyniadau rheilffordd / tramffordd / trafnidiaeth ac atyniadau bwyd neu ddiod gafodd y gyfran uchaf o ymwelwyr o weddill y DU.

- Roedd grwpiau a drefnwyd neu deithiau'n rhoi cyfrif am gyfartaledd o 13.1% o'r holl ymwelwyr ag atyniadau a gymerodd ran yn 2018. Roedd y gyfran o ymwelwyr mewn grwpiau / teithiau lawer yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer canolfannau gwyddoniaeth / technoleg (30.3%, er bod hyn yn seiliedig ar nifer fach o atyniadau, sef 3).
- Dywedodd bron i saith ym mhob deg atyniad a gymerodd ran (68.5%) eu bod ar agor bob mis o'r flwyddyn yn 2018, tra bo'r tri ym mhob deg (31.5%) a oedd yn weddill ar agor am ran o'r flwyddyn.
- Roedd atyniadau yng Nghymru a gymerodd ran yn yr arolwg yn fwyaf tebygol o fod ar agor yn ystod y misoedd o fis Ebrill i fis Medi 2018, ac yn lleiaf tebygol o fod ar agor yn ystod misoedd Ionawr, Chwefror, Tachwedd a Rhagfyr.

1. Cyflwyniad

1.1 Cefndir

Mae Croeso Cymru wedi bod yn cynnal yr Arolwg o Ymweliadau ag Atyniadau Twristiaeth ers 1973. Cylch gorchwyl y gwaith ymchwil yw:

- Pennu ac adrodd ar nifer yr ymweliadau ag atyniadau ledled Cymru
- Dadansoddi data a gasglwyd am nifer yr ymweliadau i nodi tueddiadau cyfredol
- Darparu dadansoddiad cymharol ychwanegol o ddata wedi'i gynnwys yn yr arolwg gan gynnwys ffigurau ymweliadau, gweithrediadau, refeniw, marchnata ac adnoddau dynol
- Dadansoddi data yn unol â'r categorïau atyniadau, ledled pedwar rhanbarth economaidd Cymru, a pholisi codi tâl am fynediad (atyniadau am ddim o'i gymharu ag atyniadau â thâl.

1.2 Diffiniad o atyniad twristiaeth

Mae'r gwaith ymchwil yn defnyddio'r diffiniad o atyniad twristiaeth¹ y cytunwyd arno gan y pedwar Bwrdd Croeso Cenedlaethol ar gyfer arolwg 2001 lle mae atyniad twristaidd yn:

“.....Atyniad, lle mae'n bosibl codi tâl mynediad ar gyfer yr unig ddiben o ymweld â golygfeydd. Rhaid i'r atyniad fod yn gyrchfan gwibdaith barhaol wedi'i sefydlu, gyda'i brif bwrpas i ganiatáu mynediad i adloniant, diddordeb neu addysg, yn hytrach na bod yn allfa manwerthu yn bennaf neu'n lleoliad ar gyfer perfformiadau chwaraeon, theatr neu ffilm.

Rhaid iddo fod yn agored i'r cyhoedd heb archebu o flaen llaw, am gyfnodau cyhoeddedig o'r flwyddyn a dylai allu denu ymwelwyr dydd neu dwristiaid yn ogystal â thrigolion lleol. Yn ogystal, rhaid i'r atyniad fod yn un busnes unigol, o dan reolaeth unigol, fel y gall ateb cwestiynau economaidd ar refeniw,

¹Mae'r diffiniad hwn yn cael effaith ar Ganolfan Mileniwm Cymru, a allai gael ei chategoreiddio fel 'safle manwerthu neu leoliad ar gyfer ... perfformiadau ... theatrig', a fyddai'n ei hepgor o'r gwaith ymchwil hwn. Hefyd, nid yw'r Ganolfan yn cyd-fynd yn dwt â'r diffiniad uchod o atyniad, gan nad 'busnes unigol, o dan reolaeth unigol' ydyw, a bod yn fanwl, ond yn hytrach mae'n cynnwys theatr, adeilad o bwys pensaernïol, caffis ac orielau celf. Nid yw'r ffigurau ymwelwyr a gynhwysir yn yr adroddiad hwn ar gyfer Canolfan Mileniwm Cymru yn cynnwys pobl sy'n mynd i'r theatr, nac ymwelwyr y mae prif ddiben eu hymwelriad yn ymwneud â'r theatr (e.e. gwerthiannau tocynnau / casglu tocynnau ac ati). Am y rheswm hwn, caiff Canolfan Mileniwm Cymru ei chynnwys yn y tudalennau canlynol, gan gydnabod nad yw'n cyfateb i'r diffiniad uchod o atyniad twristiaeth ym mhob ystyr. Rhaid ystyried hyn wrth gymharu â chofnodion eraill.

cyflogaeth ac ati, a rhaid ei fod yn derbyn refeniw yn uniongyrchol gan yr ymwelwyr.”

1.3 Amcanion

Diben yr arolwg hwn yw monitro tueddiadau yn y sector atyniadau twristiaeth yng Nghymru er mwyn darparu gwell dealltwriaeth am y sector ar gyfer sefydliadau'r diwydiant a sefydliadau'r sector cyhoeddus a lledaenu'r canfyddiadau mewn ffordd ddefnyddiol a gwerthfawr i'r diwydiant ehangach.

1.4 Cefndir economaidd a hinsoddol 2018

Mae economi a hinsawdd y DU yn ffactorau allweddol wrth ystyried twristiaeth gartref a bydd eu heffaith yn cael ei hadlewyrchu yn y ffigyrau yn yr adroddiad hwn.

Crynodeb o economi'r DU ar gyfer 2018

Ehangodd economi'r DU ar ei chyfradd flynyddol arafaf mewn chwe blynedd yn 2018, ar ôl cywasgiad sydyn ym mis Rhagfyr 2017. Roedd twf yn ystod y flwyddyn yn 1.4%, i lawr o 1.7% yn 2017 a'r gyfradd arafaf ers 2012 yn ôl y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS)². Fe briodolodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol hyn i gwympiadau yn allbwn ffatrioedd ac mewn gweithgynhyrchu ceir, yn ogystal â gostyngiad mewn adeiladu, ymhlith ffactorau eraill. Ar yr un pryd, fe barhaodd y sector gwasanaethau i berfformio'n dda. Roedd economegwyr yn priodoli gweithgarwch economaidd gwannach i ansicrwydd parhaus ynghylch Brexit, gyda busnesau'n dal yn ôl ar fuddsoddiadau mawr ac yn pentyrru stoc fel cam rhagofalus, yn ogystal â phryderon ynghylch masnach fyd-eang.

Roedd chwyddiant y mynegai prisiau defnyddwyr ar lwybr tuag i lawr yn 2018³. Prisiau olew is oedd y prif ffactor a arweiniodd at y gostyngiad i 2.1% ym mis Rhagfyr – cyfradd flynyddol isaf chwyddiant y mynegai prisiau defnyddwyr ers mis Ionawr 2017. Fe wnaeth twf cyflog cyfartalog gyflymu'n araf tuag at ddiwedd 2018 gyda chynnydd o 3.4% mewn enillion cyfartalog yn cael ei gofnodi yn y tri mis hyd at fis Tachwedd 2018. Fe gynyddodd nifer y bobl mewn gwaith yn ystod y cyfnod hwn, gyda chyfran y boblogaeth o oedran gwaith mewn cyflogaeth (ar 75.8%) ar ei huchaf ers i'r cofnodion ddechrau ym 1971. Aeth hyn â'r DU i'r trydydd safle o ran y cyfraddau cyflogaeth uchaf ymhlith economïau'r G7 (y tu ôl i'r Almaen a Japan).

² Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS): [Amcangyfrif Misol o Gynnyrch Domestig Gros y DU Rhagfyr 2018](#)

³ Papur Briffio Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin: [Dangosyddion Economaidd Ionawr 2019](#)

Codwyd cyfraddau sylfaen Banc Lloegr eto, 0.25% ym mis Awst 2018 i 0.75% (ar ôl cynnydd o 0.25% ym mis Tachwedd 2017), ond ni chawsant eu codi ym mis Rhagfyr 2018. Cynyddodd prisiau tai 2.5% yn y flwyddyn hyd at fis Rhagfyr 2018, gan olygu bod y pris tŷ cyfartalog yn £231,000, yn ôl y mynegai prisiau tai swyddogol a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

Yn 2018 gwelwyd dirywiad mewn twristiaeth o wledydd tramor i'r DU o'r lefelau uchaf erioed a gofnodwyd yn 2017 yn ôl VisitBritain⁴. Gostyngodd nifer yr ymwelwyr o wledydd tramor i'r DU 3% i 37.9 miliwn a chwympodd gwerth gwariant 7% i £22.9 biliwn; dyma oedd yr ail uchaf i gael eu cofnodi yn y ddau achos. Dangosodd ymchwil gan VisitBritain fod diddordeb mewn ymweld â'r DU ymhlith y rhai sy'n byw yn Ewrop ers refferendwm Brexit wedi gostwng o 76% ym mis Awst 2016 i 69% yn hydref 2018⁵.

Yn 2018 gwelwyd cynnydd yn nifer y teithiau dros nos i Gymru gan drigolion Prydain Fawr (i ychydig dros 10 miliwn o deithiau, cynnydd o 11% o un flwyddyn i'r llall) a chynnydd yn eu gwariant yng Nghymru i £1,853 miliwn. Ar yr un pryd, cwmpodd nifer y teithiau i Gymru gan ymwelwyr rhyngwladol i 941,000 – gostyngiad o 13% o un flwyddyn i'r llall, o'i gymharu â chwymp o 3% ledled y DU gyfan. Cynyddodd gwariant ymwelwyr rhyngwladol yn 2018 i £405 miliwn, serch hynny.

Roedd gostyngiad bach yn nifer a gwariant y teithiau undydd twristiaeth yng Nghymru yn ystod 2018 o'i gymharu â 2017, gyda 95.7 miliwn o deithiau yn cael eu gwneud a gwariant cysylltiedig o £4 biliwn⁶.

Crynodeb hinsoddol 2018⁷

Roedd 2018 yn gynhesach na'r cyffredin i'r DU, er nad oedd mor gynnes â 2017. Roedd misoedd Mai, Mehefin a Gorffennaf yn llawer cynhesach a mwy heulog na'r cyffredin. Roedd hi hefyd yn flwyddyn gymharol sych a chafwyd gwasgedd uchel gan amlaf yn yr haf, a oedd y poethaf yn y DU ers 2006, y sychaf ers 2003 a'r mwyaf heulog ers 1910. Roedd haf 2018 yn gydradd gynhesaf gyda blynyddoedd 1976, 2003 a 2006.

Roedd cyfnod o dywydd gaeafol garw ar ddiwedd mis Chwefror a dechrau mis Mawrth, gyda'r cyfnod mwyaf sylweddol o eira a thymereddau isel yn y DU ers 2010. Daeth Storm Ali ganol mis Medi â gwyntoedd cryfion iawn i Ogledd-orllewin Cymru, a daeth Storm Callum ganol mis Hydref â glaw trwm di-baid i Dde Cymru.

⁴ [Ciplun VisitBritain 2018](#)

⁵ Papur Briffio Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin: [Ystadegau a Pholisi Twristiaeth Medi 2019](#)

⁶ Croeso Cymru: [Perfformiad Twristiaeth Cymru 2018](#)

⁷ [Crynodeb Hinsawdd Blynyddol y Swyddfa Dywydd 2018](#)

2. Methodoleg

2.1 Cynnal y gwaith ymchwil

Fe wnaed y gwaith maes ar gyfer arolwg 2018 rhwng mis Mehefin a dechrau mis Medi 2019. Ni all gwaith maes ddechrau tan ar ôl cyfnod y Pasg pan fo rhai o'r atyniadau llai'n agor ar gyfer y tymor. Cyn i'r gwaith maes ddechrau, fe wnaed rhywfaint o waith i ddiweddarau'r gronfa ddata atyniadau i sicrhau ei bod mor gyfoes â phosibl ac yn cynnwys cyfeiriadau e-bost a manylion cyswllt yr holl atyniadau.

Ar gyfer 2018 fe wnaed y mwyafrif o'r gwaith maes trwy arolwg ar-lein, er bod ychydig o atyniadau wedi dewis e-bostio ffurflen wedi'i chwblhau neu ateb y cwestiynau dros y ffôn.

Dosbarthwyd dolen i'r arolwg ar-lein i bob un o'r 485 o atyniadau unigol ar y gronfa ddata trwy'r e-bost ar 27 Mehefin 2019. Wedi'i hatodi wrth yr e-bost roedd ffurflen a oedd yn manylu ar yr wybodaeth y byddai'r arolwg yn gofyn iddynt amdani, fel bod atyniadau'n gallu gwneud yn siŵr ei bod wrth law cyn dechrau'r arolwg. Wedi hyn anfonwyd negeseuon e-bost atgoffa ar ddwy adeg wahanol, ac fe wnaed galwadau ffôn atgoffa ar ddwy adeg wahanol hefyd i helpu i gynyddu'r gyfradd ymateb i'r eithaf yn ystod mis Gorffennaf a mis Awst. Cynorthwyodd Croeso Cymru gyda negeseuon atgoffa pellach wedi'u targedau at atyniadau mawr tuag at ddiwedd mis Gorffennaf ac ym mis Awst. Roedd yr arolwg a holl ddeunyddiau'r arolwg ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Hefyd, fe wnaeth Beaufort ymdrechion annibynnol i hybu'r gyfradd ymateb, trwy gysylltu â sefydliadau â nifer fawr o atyniadau yng Nghymru ar wahân i gael ffigyrau ymwelwyr. Roedd y rhain yn cynnwys Amgueddfa Cymru, Cadw, Dŵr Cymru, Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Cyfoeth Naturiol Cymru ac RSPB Cymru. Ar y cyfan fe ddarparodd y sefydliadau hyn ddata ar gyfer 85 o atyniadau.

Caewyd yr arolwg ar 5 Medi 2019, gyda gwaith i ddadansoddi ymatebion yn digwydd ar ôl hyn.

Roedd yr holiadur yn seiliedig ar yr holiadur a ddefnyddiwyd mewn blynyddoedd blaenorol i sicrhau cymharedd a'r gallu i fonitro data ar dueddiadau, er bod rhai mân newidiadau o'i gymharu â 2017 (gweler Atodiad I).

2.2 Dosbarthiad a chyfradd ymateb yr arolwg

Gwahoddwyd cyfanswm o 570 o atyniadau⁸ y credwyd eu bod yn cyd-fynd â'r diffiniad o atyniad twristiaeth i gymryd rhan. Caiff y cyfraddau ymateb ar gyfer y flwyddyn hon a blynyddoedd cynharach eu rhoi yn Nhabl 2.1 isod:

Tabl 2.1: Cyfradd ymateb

	2018	2017	2016*	2014	2013	2012
Cyfanswm yr atyniadau y cysylltwyd â nhw	570	571	609	478	478	481
Atyniadau a gwblhaodd yr arolwg	248 (44%)	237 (42%)	216 (35%)	146 (30%)	173 (36%)	190 (40%)
Atyniadau a ymatebodd ond nad oeddent yn gallu darparu ffigurau neu a oedd wedi cau	20 (4%)	1 (0.2%)	Amherthnasol	9 (2%)	10 (2%)	25 (5%)
CYFANSWM Y GYFRADD YMATEB	268 (47%)	238 (42%)	216 (35%)	155 (32%)	183 (38%)	215 (47%)

*Cynhaliwyd arolwg cyfyngedig yn fewnol gan Croeso Cymru yn 2015, felly nid oes unrhyw ddata cymharol ar gael ar gyfer y flwyddyn hon

Roedd yr ymateb i'r arolwg yn 2018 yn cyfateb i 47%, a oedd yn uwch nag unrhyw flwyddyn ers 2012, a dychwelwyd 268 o ymatebion i'r arolwg, sef y nifer fwyaf ers 2007. Roedd 248 o'r 268 o atyniadau a ymatebodd i arolwg 2018 yn gallu darparu niferoedd ymweliadau.

Er mwyn asesu dibynadwyedd ffigurau ymweliadau a ddarparwyd, fe wnaeth 233 o'r 248 o weithredwyr a ddarparodd ddata nodi pa ddulliau a ddefnyddiwyd ganddynt i gyfrifo eu ffigurau: dangosir y canlyniadau yn Nhabl 2.2 dros y dudalen. Mae'r ffigurau yn gwneud cyfanswm sy'n fwy na 100% gan bod rhai atyniadau'n crybwyll mwy nag un dull.

Ychydig o newid a fu mewn dulliau cofnodi dros y blynyddoedd. Dywedodd rhwng 8% a 9% o atyniadau mai amcangyfrifon oedd niferoedd yr ymweliadau a nodwyd ganddynt bob blwyddyn o 2016 i 2018.

⁸ Mae hyn yn cynnwys 485 o atyniadau a sefydliadau unigol sy'n rhoi cyfrif am nifer fawr o atyniadau twristiaeth yng Nghymru y cysylltwyd â hwy ar wahân (a ddarparodd ddata ar gyfer 85 o atyniadau)

Tabl 2.2: Niferoedd yr ymwelwyr – dull cofnodi

Dull a ddefnyddiwyd yn 2018	Nifer yr atyniadau	% yr atyniadau a ddarparodd ddata
Gwerthiant tocynnau a / neu werthiant grŵp	85	36.5%
Cyfrif mecanyddol / electronig	60	25.8%
Cyfrif â llaw	55	23.6%
Amcangyfrif yn unig	21	9.0%
Gwnaed amcangyfrif ar sail cyfrif y sampl	12	5.2%
Arall*	25	10.7%

Sampl: atyniadau a ddarparodd ddata ar ddulliau cyfrif (233)

* Mae dulliau eraill yn cynnwys gwerthiant caffis/ystafelloedd te, cofnodi data WiFi, ffurflenni risg a chyfrifon ceir

DS: gellir darparu mwy nag un dull o gofnodi

3. Y deg atyniad uchaf am ddim a'r rhai â thâl

3.1 Y deg atyniad uchaf â thâl

Yr atyniad â thâl a nododd y nifer uchaf o ymwelwyr yn 2018, fel yn ystod y blynyddoedd blaenorol, oedd Canolfan Hamdden a Pharc Dŵr yr LC yn Abertawe (772,000 o ymwelwyr). Cafwyd gostyngiad o 1.5% yn nifer yr ymwelwyr â'r LC yn 2018 o 796,149 yn 2017. Mae tri atyniad newydd yn y deg uchaf am y tro cyntaf yn 2018 – Zip World Slate Caverns a Zip World Fforest, a Nova Prestatyn.

Mae'r mwyafrif o'r deg atyniad uchaf â thâl ar gyfer ymwelwyr yn 2018 (saith) wedi'u lleoli yng Ngogledd Cymru, gyda dau yn Ne-orllewin Cymru ac un yn Ne-ddwyrain Cymru. Mae pedwar o'r deg mewn perchnogaeth breifat, mae tri yn eiddo i awdurdod lleol/Parc Cenedlaethol, dau yn eiddo i Cadw ac un yn eiddo i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol.

Mae tri o'r atyniadau hyn sydd yn y safleoedd uchaf yn eiddo hanesyddol, mae dau yn atyniadau â thema ac mae dau yn atyniadau gweithgareddau / antur. Mae'r gweddill yn atyniad fferm, yn barc gwledig / gardd ac yn atyniad rheilffordd / tramffordd / trafndiaeth.

Cafodd y deg atyniad uchaf â thâl a ddarparodd ddata ar gyfer 2018 gyfanswm o bron i 3.2 miliwn o ymwelwyr, a hwythau'n rhoi cyfrif am 36% o'r holl ymweliadau ag atyniadau â thâl yn 2018 – gweler Tabl 3.1 isod am ragor o fanylion.

Tabl 3.1: Y deg atyniad uchaf â thâl yn 2018

Enw		Rhanbarth	Categori	Perchennog	Nifer ymwelia-dau yn 2017	Nifer ymwelia-dau yn 2018	% y newid	£ Oedolion
1	Canolfan Hamdden a Pharc Dŵr yr LC	SW	THEMA	PO	796,149	772,000	-3.0%	£7.00
2	Fferm Folly	SW	FFERM	PO	480,000	455,428	-5.1%	£16.00
3	Castell Caerdydd	SE	HP	LA/NP	319,131	452,007	+41.6%	£13.00
4	Gardd Bodnant	N	CP	NT	255,949	260,153	+1.6%	£14.00
5	Nova Prestatyn	N	THEMA	LA/NP	Amh.	250,000	Amh.	£6.00
6	Castell Caernarfon	N	HP	Cadw	204,675	205,009	+0.2%	£9.50
7	Castell Conwy	N	HP	Cadw	221,652	201,961	-8.9%	£9.50
8	Zip World Slate Caverns	N	A/A	PO	190,000	195,000	+2.6%	£31.00
8	Zip World Fforest	N	A/A	PO	115,528	195,000	+68.8%	£20.00
10	Tramffordd Pen y Gogarth	N	R/T	LA/NP	205,495	191,613	-6.8%	£8.10

3.2 Y deg atyniad uchaf am ddim

O blith yr atyniadau am ddim a wnaeth ddarparu data yn 2018, Canolfan Mileniwm Cymru a gafodd y nifer uchaf o ymwelwyr (bron i 1.8 miliwn); fodd mae nifer yr ymweliadau a nodwyd yn 2018 wedi codi o'u lefel yn 2017, sef bron i 1.1 miliwn.

Mae'r deg atyniad uchaf am ddim yn 2018 yn ymwneud ag amgueddfeydd ac orielau (gyda phedair yn y deg uchaf) ac atyniadau bywyd gwyllt a gwarchodfeydd natur (gyda thri) yn bennaf. Mae atyniadau eraill am ddim yn y deg uchaf yn cynnwys atyniad â thema (sy'n cwmpasu nifer o safleoedd a chynhyrchion), parc gwledig ac eiddo hanesyddol. Sylwer bod data ar ymweliadau ar gyfer Yr Wyddfa bellach yn cael ei nodi (a'i gyflwyno) yn wahanol i flynyddoedd blaenorol, gydag ymweliadau ar gyfer Cerddwyr ar yr Wyddfa yn cael eu rhannu oddi wrth ymweliadau â Rheilffordd yr Wyddfa. Os cyfunir y ddau, maent yn dynodi y bu cyfanswm o 790,000 o ymweliadau â'r Wyddfa yn 2018.

Cafodd y deg atyniad uchaf am ddim a wnaeth ddarparu data ar gyfer 2018 gyfanswm o ychydig dros 6.7 miliwn o ymwelwyr ac roeddent yn rhoi cyfrif am bron i 50% o'r holl ymweliadau ag atyniadau am ddim yn ystod y flwyddyn - am ragor o fanylion gweler Tabl 3.2 dros y dudalen.

Tabl 3.2: Y deg atyniad uchaf am ddim yn 2018

Enw	Rhanbarth	Categori	Perchennog	Nifer ymweliadau yn 2017	Nifer ymweliadau yn 2018	% y newid	
1	Canolfan Mileniwm Cymru 9	SE	MAG	PO	1,082,494	1,762,281	+62.8%
2	Parc Hwyl, Cwrs Rasys a Marchnad Tir Prince	N	THEMA	PO	*	900,000	Amh.
3	Cerddwyr ar yr Wyddfa ¹⁰	N	WL	LA/NP	654,077	650,000	-0.6%
4	Sain Ffagan: Amgueddfa Werin Cymru	SE	MAG	AC - NMW	553,090	636,859	+15.1%
5	Canolfan Gelfyddydau Aberystwyth	M	MAG	Preifat	*	600,000	Amh.
6	Parc Gwledig Pembre	SW	CP	LA/NP	470,000	520,000	+10.6%
7	Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd	SE	MAG	AC - NMW	539,550	488,809	-9.4%
8	Gwarchodfa Natur Genedlaethol Niwbwrch	N	WL	NRW	449,771	478,204	+6.3%
9	Parc Coedwig Gwydir	N	WL	NRW	317,405	352,723	+11.1%
10	Traphont Ddŵr Pontcysyllte a Chanolfan Ymwelwyr Basn Trefor	N	HP	PO	333,363	342,620	+2.8%

* NP = heb ei ddarparu

9 Nid yw Canolfan Mileniwm Cymru, a allai gael ei chategoreiddio fel 'safle manwerthu neu leoliad ar gyfer ... perfformiadau ... theatrig', yn cyd-fynd yn dwt â'r dosbarthiad o atyniad, gan nad 'busnes unigol, o dan reolaeth unigol' ydyw, a bod yn fanwl, ond yn hytrach mae'n cynnwys theatr, adeilad o bwys pensaernïol, caffis ac orielau celf. Nid yw'r ffigyrau ymwelwyr a gynhwysir yn yr adroddiad hwn ar gyfer Canolfan Mileniwm Cymru yn cynnwys pobl sy'n mynd i'r theatr, nac ymwelwyr y mae prif ddiben eu hymwelriad yn ymwneud â'r theatr (e.e. gwerthiannau tocynnau / casglu tocynnau ac ati). Am y rheswm hwn, caiff Canolfan Mileniwm Cymru ei rhestru yn Adroddiad Atyniadau 2018, gan gydnabod nad yw'n cyfateb i'r diffiniad uchod o atyniad twristiaeth ym mhob ystyr. Rhaid ystyried hyn wrth gymharu â chofnodion eraill.

¹⁰ Newidiwyd enw a chategori'r atyniad yn 2018 – yn flaenorol roedd Cerddwyr ar yr Wyddfa wedi'u grwpio gydag ymwelwyr â Rheilffordd yr Wyddfa ac roedd ymweliadau'n cael eu nodi ar y cyd fel Canolfan Ymwelwyr Copa'r Wyddfa. Bellach mae Rheilffordd yr Wyddfa wedi cael ei gwahanu oddi wrth Gerddwyr ar yr Wyddfa at ddibenion adrodd. Os cyfunir y ddau, maent yn rhoi cyfrif am gyfanswm o 790,000 o ymwelwyr â'r Wyddfa yn 2018.

4. Ymweliadau 2018

Mae'r adran hon yn darparu dadansoddiad o ddata'r ymweliadau ar gyfer 2018.

Sylwer: nid yw pob maint sampl yr un fath, am nad oedd yr holl ymatebwyr wedi cwblhau holl adrannau'r holiadur. Mae'r rhai **na wnaethant** gwblhau'r adrannau perthnasol wedi cael eu hepgor o'r tablau **ond wedi'u cynnwys** mewn adrannau eraill lle maent wedi darparu data.

Gwnaed 22.2 miliwn o ymweliadau ag atyniadau yng Nghymru a gymerodd ran yn yr arolwg yn 2018; roedd tua chwech ym mhob deg o'r rhain yn ymweliadau ag atyniadau am ddim (61%) gyda'r pedwar ym mhob deg sy'n weddill yn ymweliadau ag atyniadau â thâl (39%). Mae poblogrwydd uwch yr atyniadau am ddim yn adlewyrchu'r un sefyllfa mewn blynyddoedd blaenorol – gweler Tabl 4.1 isod.

Ymhlith yr holl atyniadau a wnaeth ymateb i'r arolwg, roedd y 23 a wnaeth nodi mwy na 200,000 o ymwelwyr yn rhoi cyfrif am bron i hanner yr holl ymweliadau a gofnodwyd yn 2018 (48.8%).

Tabl 4.1: Ymweliadau ar y cyfan yn ôl y math o fynediad yn 2018

Math o fynediad	Sampl	Nifer yr ymweliadau yn 2018	% yr ymweliadau
Am ddim	116	13,513,160	60.8%
Â thâl	133	8,710,160	39.2%
CYFANSWM	249	22,223,320	100.0%

Sampl: atyniadau a ddarparodd ddata ar gyfer 2018

Yr atyniadau a gymerodd ran yng Ngogledd Cymru a De-ddwyrain Cymru gafodd y gyfran uchaf o ymweliadau (sef 40.2% a 29.6% yn y drefn honno), ac atyniadau yng Nghanolbarth Cymru gafodd y gyfran isaf (9.7%).

De-orllewin Cymru oedd yr unig ranbarth lle bu mwy o ymweliadau ag atyniadau â thâl nag atyniadau am ddim yn 2018 (ychydig dros 2.4 miliwn o'i gymharu â 2.1 miliwn o ymweliadau yn y drefn honno). Ym mhob rhanbarth arall (yn enwedig Canolbarth Cymru), bu nifer sylweddol uwch o ymweliadau ag atyniadau am ddim nag a fu ag atyniadau â thâl – gweler Tabl 4.2 dros y dudalen am ragor o fanylion.

Tabl 4.2: Ymweliadau ar y cyfan yn ôl y math o fynediad a rhanbarth yng Nghymru yn 2018

Rhanbarth yng Nghymru	Am ddim			Â thâl			POB UN		
	Sampl	Nifer yr ymweliadau yn 2018	%	Sampl	Nifer yr ymweliadau yn 2018	%	Sampl	Nifer yr ymweliadau yn 2018	%
Canolbarth	24	1,606,290	7.2%	17	549,209	2.5%	41	2,155,499	9.7%
Gogledd	35	5,251,108	23.6%	52	3,693,697	16.6%	87	8,944,805	40.2%
De-ddwyrain	31	4,517,254 ¹¹	20.3%	30	2,050,983	9.2%	61	6,568,237	29.6%
De-orllewin	26	2,138,508	9.6%	33	2,416,271	10.9%	59	4,554,779	20.5%
CYFANSWM	116	13,513,160	60.8%	132	8,713,160	39.2%	248	22,226,320	100.0%

Sampl: atyniadau a ddarparodd ddata ar gyfer 2018

Mae Tabl 4.3 drosodd yn dangos sut mae cyfran yr atyniadau ym mhob rhanbarth yn ymwneud â chyfran yr ymweliadau.

Fel mewn blynyddoedd blaenorol, Gogledd Cymru sydd â'r gyfran uchaf o atyniadau a gymerodd ran yn arolwg 2018 (sef 35.1%), a Chanolbarth Cymru sydd â'r gyfran isaf (sef 16.5%). Mae De-ddwyrain Cymru a De-orllewin Cymru ill dau'n rhoi cyfrif am oddeutu un ym mhob pedwar atyniad yn y sampl (24.6% a 23.8% yn y drefn honno).

Roedd Gogledd Cymru a De-ddwyrain Cymru ill dau'n rhoi cyfrif am gyfran uwch o ymweliadau yn 2018 na'u cyfran o atyniadau – er enghraifft, roedd Gogledd Cymru'n gartref i 35.1% o'r atyniadau yn arolwg 2018 ond yn rhoi cyfrif am 40.2% o'r ymweliadau. Roedd y gwrthwyneb yn wir am Ganolbarth Cymru ac, i raddau llai, De-orllewin Cymru – er enghraifft, roedd Canolbarth Cymru yn rhoi cyfrif am 16.5% o'r atyniadau ond llai na 10% o'r ymweliadau. Mae hyn yn gysylltiedig â nifer fwy o atyniadau llai yn yr ardaloedd hyn. Caiff newidiadau dros amser eu nodi yn adran 5 o'r adroddiad.

Cafodd pob atyniad a ymatebodd i'r arolwg gyfartaledd o 89,610 o ymweliadau yn 2018: roedd nifer cyfartalog yr ymweliadau fesul atyniad yn

¹¹ Mae'r ffigur hwn yn cynnwys Canolfan Mileniwm Cymru, a allai gael ei chategoreiddio fel 'safle manwerthu neu leoliad ar gyfer ... perfformiadau ... theatrig', ac nad yw'n cyd-fynd yn dwt â'r dosbarthiad o atyniad, gan nad 'busnes unigol, o dan reolaeth unigol' ydyw, a bod yn fanwl, ond yn hytrach mae'n cynnwys theatr, adeilad o bwys pensaernïol, caffis ac orielau celf. Nid yw'r ffigurau ymwelwyr a gynhwysir yn yr adroddiad hwn ar gyfer Canolfan Mileniwm Cymru yn cynnwys pobl sy'n mynd i'r theatr, nac ymwelwyr y mae prif ddiben eu hymweliad yn ymwneud â'r theatr (e.e. gwerthiannau tocynnau / casglu tocynnau ac ati). Am y rheswm hwn, caiff Canolfan Mileniwm Cymru ei rhestru yn y tudalennau canlynol, gan gydnabod nad yw'n cyfateb i'r diffiniad uchod o atyniad twristiaeth ym mhob ystyr. Rhaid ystyried hyn wrth gymharu â chofnodion eraill.

2018 ar ei uchaf yn Ne-ddwyrain Cymru a Gogledd Cymru (sef 107,676 a 102,814 yn y drefn honno) ac ar ei isaf yng Nghanolbarth Cymru (sef 52,573).

Tabl 4.3: Cyfran o atyniadau ac ymweliadau yn ôl rhanbarth yn 2018, a nifer cyfartalog yr ymwelwyr yn 2018 a 2017 (gwahanol samplau)

Rhanbarth yng Nghymru	Sail	% yr atyniadau	% yr ymweliadau	Nifer cyfartalog yr ymweliadau fesul atyniad yn 2017	Nifer cyfartalog o ymweliadau fesul atyniad yn 2018
Canolbarth	41	16.5%	9.7%	22,964	52,573
Gogledd	87	35.1%	40.2%	89,698	102,814
De-ddwyrain	61	24.6%	29.6%	105,177	107,676¹²
De-orllewin	59	23.8%	20.5%	78,676	77,200
CYFANSWM	248	100.0%	100.0%	78,620	89,610

Sampl: atyniadau a ddarparodd ddata ar gyfer 2017 (237) / 2018 (248)

Y mathau o atyniadau yng Nghymru a gafodd y mwyaf o ymweliadau yn 2018 oedd amgueddfeydd ac orielau celf ac atyniadau bywyd gwyllt a gwarchodfeydd natur, a oedd yn rhoi cyfrif am 25.4% a 22.2% o'r holl ymweliadau yn y drefn honno. Cafodd eiddo hanesyddol a pharciau gwledig 17.1% a 10.2% o'r ymweliadau yn y drefn honno yn ystod y flwyddyn.

Roedd y mwyafrif o'r ymweliadau yn 2018 ag amgueddfeydd ac orielau, atyniadau bywyd gwyllt a gwarchodfeydd natur a pharciau gwledig / gerddi yn rhai ag atyniadau am ddim yn hytrach nag atyniadau â thâl:

- Bu oddeutu 5.2 miliwn o ymweliadau ag amgueddfeydd ac orielau am ddim yng Nghymru yn 2018, o'i gymharu ag oddeutu 440,000 o ymweliadau ag amgueddfeydd ac orielau â thâl
- Bu bron i 4.4 miliwn o ymweliadau ag atyniadau bywyd gwyllt a gwarchodfeydd natur am ddim, o'i gymharu â 570,000 o ymweliadau â thâl
- Bu bron i 1.6 miliwn o ymweliadau â pharciau gwledig / gerddi am ddim o'i gymharu ag ychydig dros 670,000 o ymweliadau â thâl

¹² Mae'r ffigwr hwn yn cynnwys Canolfan Mileniwm Cymru, a allai gael ei chategoreiddio fel 'safle manwerthu neu leoliad ar gyfer ... perfformiadau ... theatrig', ac nad yw'n cyd-fynd yn dwt â'r dosbarthiad o atyniad, gan nad 'busnes unigol, o dan reolaeth unigol' ydyw, a bod yn fanwl, ond yn hytrach mae'n cynnwys theatr, adeilad o bwys pensaernïol, caffis ac orielau celf. Nid yw'r ffigyrau ymwelwyr a gynhwysir yn yr adroddiad hwn ar gyfer Canolfan Mileniwm Cymru yn cynnwys pobl sy'n mynd i'r theatr, nac ymwelwyr y mae prif ddiben eu hymweliad yn ymwneud â'r theatr (e.e. gwerthiannau tocynnau / casglu tocynnau ac ati). Am y rheswm hwn, caiff Canolfan Mileniwm Cymru ei rhestru yn y tudalennau canlynol, gan gydnabod nad yw'n cyfateb i'r diffiniad uchod o atyniad twristiaeth ym mhob ystyr. Rhaid ystyried hyn wrth gymharu â chofnodion eraill.

Roedd y gwrthwyneb yn wir am eiddo hanesyddol, gyda thros 3 miliwn o ymweliadau â thâl yn 2018 o'i gymharu â 745,000 o ymweliadau am ddim.

Mae Tabl 4.4 isod yn darparu rhagor o fanylion am nifer yr ymweliadau ag atyniadau am ddim ac atyniadau â thâl, yn ôl y math o atyniad.

Tabl 4.4: Ymweliadau ar y cyfan yn ôl y math o fynediad a chategori'r atyniad yn 2018

Categori'r atyniad	Am ddim			Â thâl			POB UN		
	Sail	Nifer yr ymweliad au 2018	%	Sail	Nifer yr ymweliadau 2018	%	Sail	Nifer yr ymweliadau 2018	%
Atyniad antur / gweithgareddau	5	262,808	1.2%	11	838,800	3.8%	16	1,101,608	5.0%
Parc gwledig / gardd	11	1,587,810	7.1%	7	671,560	3.0%	18	2,259,370	10.2%
Fferm / bridiau prin	0	Amh.	Amh.	2	465,428	2.1%	2	465,428	2.1%
Atyniad bwyd neu ddiod	3	36,227	0.2%	2	6,000	*	5	42,227	0.2%
Eiddo hanesyddol	7	745,534	3.4%	50	3,051,466	13.7%	57	3,797,000	17.1%
Atyniad diwydiannol/crefft	7	230,907	1.0%	5	171,165	0.8%	12	402,072	1.8%
Amgueddfa / oriel gelf	42	5,214,966	23.5%	19	438,380	2.0%	61	5,653,346	25.4%
Rheilffordd / tramffordd / teithio / trafnidiaeth / teithiau	2	21,008	0.1%	14	834,844	3.8%	16	855,852	3.9%
Canolfan wyddoniaeth / dechnoleg	0	Amh.	Amh.	3	306,033	1.4%	3	306,033	1.4%
Parc thema / parc hamdden	1	900,000	4.0%	5	1,326,000	6.0%	6	2,226,000	10.0%
Atyniad bywyd gwyllt neu warchodfa natur	36	4,358,900	19.6%	12	570,742	2.6%	48	4,929,642	22.2%
Atyniad arall	2	155,000	0.7%	2	29,742	0.1%	4	187,742	0.8%
CYFANSWM	116	13,513,160	60.8%	132	8,710,160	39.2%	248	22,223,320	100.0%

Sampl: atyniadau a ddarparodd ddata ar gyfer 2018

* llai na 0.1%

Sylwer: gwnaed rhai newidiadau i gategoriâu'r atyniadau yn 2016

DS: Rhybudd: Samplau bach

Mae Tabl 4.5 dros y dudalen yn dangos cyfrannau cymharol yr atyniadau a wnaeth ymateb i arolwg 2018 ochr yn ochr â chyfran gymharol yr ymweliadau, yn ôl categori'r atyniad.

Mae eiddo hanesyddol ac atyniadau diwydiannol / crefft yn rhoi cyfrif am bron i dri atyniad ym mhob deg a ymatebodd i'r arolwg (27.8%) ond llai nag un ym mhob pump o'r holl ymweliadau (18.9%). Mae atyniadau rheilffordd / tramffordd / trafndiaeth hefyd yn rhoi cyfrif am gyfran ychydig yn uwch o atyniadau yng Nghymru nag o ymweliadau (6.5% o atyniadau ond dim ond 3.9% o ymweliadau).

Mewn cyferbyniad, cafodd parciau thema / hamdden, atyniadau bywyd gwyllt a gwarchodfeydd natur a pharciau gwledig a gerddi gyfran anghymesur uwch o ymweliadau yn 2018 – gweler Tabl 4.5 isod.

Tabl 4.5: Cyfran yr atyniadau a'r ymweliadau yn ôl categori'r atyniad yn 2018, a nifer cyfartalog yr ymwelwyr yn 2017 a 2018 (gwahanol samplau)

Categori'r atyniad	Sampl	% yr atyniadau	% yr ymweliadau	Nifer cyfartalog yr ymweliadau fesul atyniad yn 2017	Nifer cyfartalog yr ymweliadau fesul atyniad yn 2018
Atyniad antur / gweithgareddau	16	6.5%	5.0%	59,843	68,851
Parc gwledig / gardd	18	7.3%	10.2%	141,393	125,521
Fferm / bridiau prin	2	0.8%	2.1%	111,000	232,714
Atyniad bwyd neu ddiod	5	2.0%	0.2%	44,458	8,445
Eiddo hanesyddol	57	23.0%	17.1%	63,596	66,614
Atyniad diwydiannol/crefft	12	4.8%	1.8%	33,938	33,506
Amgueddfa / oriel gelf	61	24.6%	25.4%	69,302	92,678
Rheilffordd / tramffordd /teithio/ trafndiaeth / teithiau	16	6.5%	3.9%	63,113	53,491
Canolfan wyddoniaeth/dechnoleg	3	1.2%	1.4%	103,489	102,011
Parc thema / parc hamdden	6	2.4%	10.0%	796,149	371,000
Atyniad bywyd gwyllt neu warchodfa natur	48	19.4%	22.2%	78,523	102,701
Atyniad arall	4	1.6%	0.8%	119,392	46,186
CYFANSWM	249	100.0%	100.0%	78,620	89,610

Sampl: atyniadau a ddarparodd ddata ar gyfer 2017 (237) / 2018 (248)

Sylwer: gwnaed rhai newidiadau i categorïau'r atyniadau yn 2016

DS: Rhybudd: Rhai samplau bach

Atyniadau mewn perchnogaeth breifat yng Nghymru oedd yn rhoi cyfrif am y gyfran uchaf o ymweliadau yn 2018 (43.6%), gyda niferoedd ychydig yn uwch o ymweliadau ag atyniadau am ddim nag o ymweliadau at atyniadau â thâl mewn perchnogaeth breifat (5.3 miliwn a 4.4 miliwn yn y drefn honno).

Cafodd atyniadau neu eiddo a berchnogir gan awdurdodau lleol neu Barciau Cenedlaethol 17.5% o'r holl ymweliadau ag atyniadau a gymerodd ran yn 2018, gyda nifer sylweddol fwy o'r rhain yn ymweliadau ag atyniadau am ddim (12.1%) nag a oedd yn ymweliadau ag atyniadau â thâl (5.4%). Roedd safleoedd Cyfoeth Naturiol Cymru yn rhoi cyfrif am 13.2% o'r ymweliadau yn 2018 tra bo atyniadau Amgueddfa Cymru yn rhoi cyfrif am 8%. Roedd yr holl ymweliadau hyn am ddim gan nad yw'r naill sefydliad na'r llall yn codi tâl am fynediad cyffredinol.

Roedd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a Cadw yn rhoi cyfrif am 7.9% o'r ymweliadau yn 2018 a Cadw yn rhoi cyfrif am 5.8%, gyda'r rhain i gyd yn atyniadau â thâl.

Hefyd, cafodd dau safle am ddim gan Dŵr Cymru eu cynnwys am y tro cyntaf yn natganiadau 2018, a hwythau'n rhoi cyfrif am 1.6% o'r ymweliadau.

Tabl 4.6: Ymweliadau ar y cyfan yn ôl y math o fynediad a pherchnogaeth yn 2018

Perchnogaeth	Am ddim			Â thâl			POB UN		
	Sampl	Nifer yr ymweliadau yn 2018	%	Sampl	Nifer yr ymweliadau yn 2018	%	Sampl	Nifer yr ymweliadau yn 2018	%
Cadw	-	-	-	24	1,296,135	5.8%	24	1,296,135	5.8%
Awdurdod Lleol / Parc Cenedlaethol	25	269,0675	12.1%	15	1,205,171	5.4%	40	3,895,846	17.5%
Amgueddfa Cymru	7	1,785,208	8.0%	-	-	-	7	1,785,208	8.0%
Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol	-	-	-	22	1,747,033	7.9%	22	1,747,033	7.9%
Cyfoeth Naturiol Cymru	29	2,938,694	13.2%	-	-	-	29	2,938,694	13.2%
Perchennog preifat / ymddiriedolaeth	50	5,333,564 ¹³	24.0%	68	4,361,570	19.6%	118	9,695,134	43.6%
RSPB	3	418,421	1.9%	3	100,251	0.5%	6	518,672	2.3%
Dŵr Cymru	2	346,598	1.6%	-	-	-	2	346,598	1.6%
CYFANSWM	116	13,513,160	60.8%	132	8,713,160	39.2%	248	22,223,320	100.0%

Sampl: atyniadau a ddarparodd ddata ar gyfer 2018

DS: Rhybudd: Rhai samplau bach

Mae Tabl 4.7 dros y dudalen yn dangos cyfrannau cymharol yr **atyniadau** a wnaeth ymateb i arolwg 2018 ochr yn ochr â chyfran gymharol yr **ymweliadau**, yn ôl perchenogaeth.

Mae atyniadau mewn perchnogaeth breifat yn rhoi cyfrif am bron i hanner y sampl yn 2018 (47.6%) a thros bedwar ymweliad ym mhob deg (43.6%). Mae atyniadau neu safleoedd a berchnogir gan Awdurdodau Lleol a Pharciau Cenedlaethol yn rhoi cyfrif am oddeutu un atyniad ym mhob chwech (16.1%) a chyfran debyg o ymweliadau (17.5%).

¹³ Mae'r ffigwr hwn yn cynnwys Canolfan Mileniwm Cymru, a allai gael ei chategoreiddio fel 'safle manwerthu neu leoliad ar gyfer ... perfformiadau ... theatrig', ac nad yw'n cyd-fynd yn dwt â'r dosbarthiad o atyniad, gan nad 'busnes unigol, o dan reolaeth unigol' ydyw, a bod yn fanwl, ond yn hytrach mae'n cynnwys theatr, adeilad o bwys pensaernïol, caffis ac orielau celf. Nid yw'r ffigyrau ymwelwyr a gynhwysir yn yr adroddiad hwn ar gyfer Canolfan Mileniwm Cymru yn cynnwys pobl sy'n mynd i'r theatr, nac ymwelwyr y mae prif ddiben eu hymweliad yn ymwneud â'r theatr (e.e. gwerthiannau tocynnau / casglu tocynnau ac ati). Am y rheswm hwn, caiff Canolfan Mileniwm Cymru ei rhestru yn y tudalennau canlynol, gan gydnabod nad yw'n cyfateb i'r diffiniad uchod o atyniad twristiaeth ym mhob ystyr. Rhaid ystyried hyn wrth gymharu â chofnodion eraill.

Mae atyniadau a berchnogir gan Cadw yn cynrychioli 9.7% o'r sampl ond cyfran ychydig yn is o'r ymweliadau (5.8%), tra bo atyniadau Amgueddfa Cymru yn rhoi cyfrif am 2.8% o'r sampl ond 8% o'r holl ymweliadau yn 2018 – gweler Tabl 4.7 isod am ragor o fanylion.

Tabl 4.7: Cyfran yr atyniadau ac ymweliadau yn ôl perchnogaeth yn 2018, a niferoedd cyfartalog yr ymwelwyr yn 2017 a 2018 (gwahanol samplau)

Perchnogaeth	Sampl	% yr atyniadau	% yr ymweliadau	Nifer cyfartalog yr ymweliadau fesul atyniad yn 2017	Nifer cyfartalog yr ymweliadau fesul atyniad yn 2018
Cadw	24	9.7%	5.8%	57,899	54,006
Awdurdod Lleol	40	16.1%	17.5%	87,001	97,396
Amgueddfa Cymru	7	2.8%	8.0%	250,876	255,030
Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol	22	8.9%	7.9%	77,117	79,411
Cyfoeth Naturiol Cymru	29	11.7%	13.2%	88,712	101,334
Perchennog preifat / ymddiriedolaeth	118	47.6%	43.6%	66,091	82,162¹⁴
RSPB	6	2.4%	2.3%	106,511	86,445
Dŵr Cymru	2	0.8%	1.6%	N/A	173,299
CYFANSWM	248	100.0%	100.0%	78,620	89,610

Sampl: atyniadau a ddarparodd ddata ar gyfer 2017 (237) / 2018 (248)

DS: Rhybudd: Rhai samplau bach

Ymhlith yr holl atyniadau a wnaeth ymateb i arolwg 2018, nododd 23 ohonynt eu bod wedi cael 200,000 neu fwy o ymweliadau yn ystod y flwyddyn - roedd yr ymweliadau â'r 23 o atyniadau hyn yn rhoi cyfrif am bron i hanner yr holl ymweliadau yn y flwyddyn (48.8%). Nid yw'r mwyafrif o'r atyniadau mwy o faint hyn (un ar bymtheg) yn codi tâl am fynediad ac fe gawsant bron i chwech ym

¹⁴ Mae'r ffigwr hwn yn cynnwys Canolfan Mileniwm Cymru, a allai gael ei chategoreiddio fel 'safle manwerthu neu leoliad ar gyfer ... perfformiadau ... theatrig', ac nad yw'n cyd-fynd yn dwt â'r dosbarthiad o atyniad, gan nad 'busnes unigol, o dan reolaeth unigol' ydyw, a bod yn fanwl, ond yn hytrach mae'n cynnwys theatr, adeilad o bwys pensaernïol, caffis ac orielau celf. Nid yw'r ffigyrau ymwelwyr a gynhwysir yn yr adroddiad hwn ar gyfer Canolfan Mileniwm Cymru yn cynnwys pobl sy'n mynd i'r theatr, nac ymwelwyr y mae prif ddiben eu hymweliad yn ymwneud â'r theatr (e.e. gwerthiannau tocynnau / casglu tocynnau ac ati). Am y rheswm hwn, caiff Canolfan Mileniwm Cymru ei rhestru yn y tudalennau canlynol, gan gydnabod nad yw'n cyfateb i'r diffiniad uchod o atyniad twristiaeth ym mhob ystyr. Rhaid ystyried hyn wrth gymharu â chofnodion eraill.

mhob deg o'r holl ymweliadau ag atyniadau am ddim (61%). Roedd y saith atyniad â thâl a gafodd y nifer uchaf o ymwelwyr yn rhoi cyfrif am gyfran lai o'r holl ymweliadau â thâl yn ystod y flwyddyn (bron i dri ym mhob deg – 29.8%) – gweler Tabl 4.8 isod am ragor o fanylion.

Tabl 4.8: Ymweliadau ar y cyfan yn ôl y math o fynediad ac amrediad o gyfanswm yr ymweliadau yn 2018

Amrediad o gyfanswm yr ymweliadau	Am ddim			Â thâl			POB UN		
	Sampl	Nifer yr ymweliadau 2018	%	Sampl	Nifer yr ymweliadau 2018	%	Sampl	Nifer yr ymweliadau 2018	%
0 – 1,999	7	4,312	*	9	8,784	*	16	13,096	*
2,000 – 4,999	14	42,749	0.2%	11	38,082	0.2%	25	80,831	0.4%
5,000 – 9,999	10	75,936	0.3%	13	85,926	0.4%	23	161,862	0.7%
10,000 – 19,999	11	166,761	0.8%	17	231,336	1.0%	28	398,097	1.8%
20,000 – 49,999	18	575,555	2.6%	30	979,228	4.4%	48	1,554,783	7.0%
50,000 – 99,999	19	1,371,564	6.2%	25	1,828,678	8.2%	44	3,200,242	14.4%
100,000 – 149,999	16	2,112,421	9.5%	9	1,083,394	4.9%	25	3,195,815	14.4%
150,000 – 199,999	5	914,104	4.1%	11	1,858,174	8.4%	16	2,772,278	12.5%
200,000 a throsodd	16	8,249,758 ¹⁵	37.1%	7	2,596,558	11.7%	23	10,846,316	48.8%
CYFANSWM	116	13,513,160	60.8%	132	8,710,160	39.2%	248	22,223,320	100.0%

Sampl: atyniadau a ddarparodd ddata ar gyfer 2018 * llai na 0.1%

DS: Rhybudd: Rhai samplau bach

Fe wnaeth bron i bedwar ym mhob deg atyniad a gymerodd ran (39.6%) nodi cynnydd yn niferoedd yr ymwelwyr yn 2018 o'i gymharu â 2017, pan ofynnwyd a oedd cyfanswm eu hymweliadau wedi cynyddu, wedi aros yr un fath ynteu wedi gostwng o un flwyddyn i'r llall. Ar yr un pryd, nododd cyfran ychydig bach yn uwch fod niferoedd eu hymwelwyr wedi cwmpo o un flwyddyn i'r llall (41.0%).

¹⁵ Mae'r ffigwr hwn yn cynnwys Canolfan Mileniwm Cymru, a allai gael ei chategoreiddio fel 'safle manwerthu neu leoliad ar gyfer ... perfformiadau ... theatrig', ac nad yw'n cyd-fynd yn dwt â'r dosbarthiad o atyniad, gan nad 'busnes unigol, o dan reolaeth unigol' ydyw, a bod yn fanwl, ond yn hytrach mae'n cynnwys theatr, adeilad o bwys pensaernïol, caffis ac orielau celf. Nid yw'r ffigyrau ymwelwyr a gynhwysir yn yr adroddiad hwn ar gyfer Canolfan Mileniwm Cymru yn cynnwys pobl sy'n mynd i'r theatr, nac ymwelwyr y mae prif ddiben eu hymweliad yn ymwneud â'r theatr (e.e. gwerthiannau tocynnau / casglu tocynnau ac ati). Am y rheswm hwn, caiff Canolfan Mileniwm Cymru ei rhestru yn y tudalennau canlynol, gan gydnabod nad yw'n cyfateb i'r diffiniad uchod o atyniad twristiaeth ym mhob ystyr. Rhaid ystyried hyn wrth gymharu â chofnodion eraill.

Roedd atyniadau â thâl yn fwy tebygol nag atyniadau am ddim o nodi cynnydd yn niferoedd yr ymwelwyr yn 2018 (41.5% o'i gymharu â 36.8%). Roedd atyniadau sy'n codi tâl am fynediad hefyd yn llai tebygol o nodi gostyngiad o un flwyddyn i'r llall (40%).

Tabl 4.9: Cynnydd / gostyngiad yn nifer yr ymwelwyr yn 2017 o'i gymharu â 2017

Newid yn niferoedd yr ymwelwyr yn 2018 o'i gymharu â 2017	Cyfanswm yr atyniadau	Atyniadau am ddim	Atyniadau â thâl
Sampl	218	87	131
Wedi cynyddu	39.6%	36.8%	41.5%
Wedi aros yr un fath	15.7%	13.8%	16.9%
Wedi gostwng	41.0%	42.5%	40.0%
Ddim yn gwybod	3.7%	6.9%	1.5%

Sampl: atyniadau a ddarparodd ddata (218)

Roedd y prif resymau a roddwyd gan atyniadau a nododd gynnydd yn niferoedd yr ymwelwyr o un flwyddyn i'r llall yn canolbwyntio ar y canlynol:

- Gwell marchnata, hysbysebu neu frandio ar gyfer yr atyniad
- Tywydd da ym misoedd yr haf
- Mwy o ddigwyddiadau a gweithgareddau neu raglennu gwell
- Mwy o ymwybyddiaeth o'r atyniad
- Mwy o weithgarwch yn y cyfryngau cymdeithasol / presenoldeb cryfach ar-lein
- Mwy o ymwelwyr â'r ardal
- Oriau agor hwy neu ail-agor y safle llawn
- Gwelliannau neu ddatblygiadau i'r atyniad e.e. cynhyrchion / cynnwys newydd.

I'r gwrthwyneb, roedd y rhai a ddywedodd fod nifer eu hymwelwyr wedi gostwng yn 2018 o'i gymharu â 2017 yn priodoli'r gostyngiad yn bennaf i'r canlynol:

- Cynnydd mewn prisiau mynediad (a grybwyllwyd gan Cadw, yn ogystal ag ychydig o atyniadau eraill)
- Y tywydd.

5. Dadansoddiad cymharol o ymweliadau ag atyniadau twristiaeth 2018 / 2017

Mae'r adran hon o'r adroddiad yn edrych ar dueddiadau yn nifer yr ymweliadau ag atyniadau yng Nghymru, gan gymharu ffigurau ymweliadau yn 2018 a 2017. Sylwer bod yr adran hon ond yn ymwneud â'r atyniadau hynny a ddarparodd ddata **yn y ddwy flynedd**.

5.1 Cymariaethau cyffredinol

Ymhlith yr atyniadau hynny a ymatebodd i'r arolwg yn y ddwy flynedd (cyfanswm o 171), cafwyd cynnydd o 4.4% yn niferoedd yr ymweliadau o un flwyddyn i'r llall - gweler Tabl 5.1 isod.

Tabl 5.1: Cymharu ffigurau ymweliadau blynyddol cyffredinol 2018 / 2017

Sampl	Nifer yr ymweliadau yn 2017	Nifer yr ymweliadau yn 2018	Newid canrannol
171	15,775,100	16,472,592	+4.4%

Sampl: atyniadau a ddarparodd ddata ar gyfer 2018 a 2017

A dadansoddi'r data yn fanylach, cafwyd cynnydd yn nifer yr ymweliadau ag atyniadau am ddim (cynnydd o 9.2%) tra bo ymweliadau ag atyniadau â thâl yn y sampl yn y ddwy flynedd wedi gostwng ychydig (gostyngiad o 1.4%) o un flwyddyn i'r llall - gweler Tabl 5.2 isod.

Tabl 5.2: Cymharu ffigurau ymweliadau 2018 / 2017 yn ôl y math o fynediad

Math o fynediad	Sampl	Nifer yr ymweliadau yn 2017	Nifer yr ymweliadau yn 2018	Newid canrannol
Am ddim	76	8,686,144	9,485,409 ¹⁶	+9.2%
Â thâl	95	7,088,956	6,987,183	-1.4%
CYFANSWM	171	15,775,100	16,472,592	+4.4%

¹⁶ Mae'r ffigwr hwn yn cynnwys Canolfan Mileniwm Cymru, a allai gael ei chategoreiddio fel 'safle manwerthu neu leoliad ar gyfer ... perfformiadau ... theatrig', ac nad yw'n cyd-fynd yn dwt â'r dosbarthiad o atyniad, gan nad 'busnes unigol, o dan reolaeth unigol' ydyw, a bod yn fanwl, ond yn hytrach mae'n cynnwys theatr, adeilad o bwys pensaernïol, caffis ac orielau celf. Nid yw'r ffigurau ymwelwyr a gynhwysir yn yr adroddiad hwn ar gyfer Canolfan Mileniwm Cymru yn cynnwys pobl sy'n mynd i'r theatr, nac ymwelwyr y mae prif ddiben eu hymweliad yn ymwneud â'r theatr (e.e. gwerthiannau tocynnau / casglu tocynnau ac ati). Am y rheswm hwn, caiff Canolfan Mileniwm Cymru ei rhestru yn y tudalennau canlynol, gan gydnabod nad yw'n cyfateb i'r diffiniad uchod o atyniad twristiaeth yn mhob ystyr. Rhaid ystyried hyn wrth gymharu â chofnodion eraill.

Sampl: atyniadau a ddarparodd ddata ar gyfer 2018 a 2017

Cynyddodd niferoedd yr ymwelwyr ym mhob rhanbarth yng Nghymru ac eithrio'r De-orllewin, lle bu gostyngiad bach o 2.2% o un flwyddyn i'r llall. Yn Ne-ddwyrain Cymru y gwelwyd y cynnydd mwyaf (sef +10.5%) tra bu cynnydd bach o +3.1% yng Ngogledd a Chanolbarth Cymru – gweler Tabl 5.3 isod.

Tabl 5.3: Cymharu ffigyrau ymwelwyr blynyddol ar y cyfan 2018 /2017 yn ôl rhanbarth

Rhanbarth yng Nghymru	Sampl	Nifer yr ymweliadau yn 2017	Nifer yr ymweliadau yn 2018	Newid canrannol
Canolbarth	26	870,257	897,194	+3.1%
Gogledd	63	6,365,939	6,562,338	+3.1%
De-ddwyrain	45	5,238,508	5,786,705 ¹⁷	+10.5%
De-orllewin	37	3,300,396	3,226,355	-2.2%
CYFANSWM	171	15,775,100	16,472,592	+4.4%

Sampl: atyniadau a ddarparodd ddata ar gyfer 2018 a 2017

Roedd cynnydd mawr yn amlwg yn yr ymweliadau ag amgueddfeydd / orielau yn 2018 (cynnydd o 22.5% o'i gymharu â 2017 – y dylanwadwyd arno'n bennaf gan y cynnydd yn yr ymweliadau â Chanolfan Mileniwm Cymru yn 2018) a'r ymweliadau ag atyniadau bywyd gwyllt / gwarchodfeydd natur (cynnydd o 6.9% - y gellir ei briodoli'n rhannol i ail-gategoreiddio Cerddwyr ar yr Wyddfa yn 2018¹⁸).

Roedd y sectorau y gwelwyd gostyngiadau ynddynt ar y cyfan yn rhai â samplau bach iawn o lai na deg atyniad – gweler Tabl 5.4 dros y dudalen.

¹⁷ Mae'r ffigwr hwn yn cynnwys Canolfan Mileniwm Cymru, a allai gael ei chategoreiddio fel 'safle manwerthu neu leoliad ar gyfer ... perfformiadau ... theatrig', ac nad yw'n cyd-fynd yn dwt â'r dosbarthiad o atyniad, gan nad 'busnes unigol, o dan reolaeth unigol' ydyw, a bod yn fanwl, ond yn hytrach mae'n cynnwys theatr, adeilad o bwys pensaernïol, caffis ac orielau celf. Nid yw'r ffigyrau ymwelwyr a gynhwysir yn yr adroddiad hwn ar gyfer Canolfan Mileniwm Cymru yn cynnwys pobl sy'n mynd i'r theatr, nac ymwelwyr y mae prif ddiben eu hymwelid yn ymwneud â'r theatr (e.e. gwerthiannau tocynnau / casglu tocynnau ac ati). Am y rheswm hwn, caiff Canolfan Mileniwm Cymru ei rhestru yn y tudalennau canlynol, gan gydnabod nad yw'n cyfateb i'r diffiniad uchod o atyniad twristiaeth ym mhob ystyr. Rhaid ystyried hyn wrth gymharu â chofnodion eraill.

¹⁸ Newidiwyd enw a chategori'r atyniad yn 2018 – yn flaenorol roedd Cerddwyr ar yr Wyddfa wedi'u grwpio gydag ymwelwyr â Rheilffordd yr Wyddfa ac roedd ymweliadau'n cael eu nodi ar y cyd fel Canolfan Ymwelwyr Copa'r Wyddfa. Bellach mae Rheilffordd yr Wyddfa wedi cael ei gwahanu oddi wrth Gerddwyr ar yr Wyddfa at ddibenion adrodd. Os cyfunir y ddau, maent yn rhoi cyfrif am gyfanswm o 790,000 o ymwelwyr â'r Wyddfa yn 2018.

Tabl 5.4: Cymharu ffigyrau ymwelwyr blynyddol ar y cyfan 2018 / 2017 yn ôl categori'r atyniad

Categori'r atyniad	Sampl	Nifer yr ymweliadau yn 2017	Nifer yr ymweliadau yn 2018	Newid canrannol
Antur / gweithgareddau	8	795,085	771,308	-3.0%
Parc gwledig / gardd	11	1,719,869	1,728,948	+0.5%
Fferm	2	490,000	465,428	-5.0%
Atyniad bwyd neu ddiod	3	27,831	32,227	+15.8%
Eiddo hanesyddol	50	3,525,606	3,563,814	+1.1%
Atyniad diwydiannol / crefft	9	375,621	338,631	-9.8%
Amgueddfa / oriel gelf	38	3,446,999	4,222,435	+22.5%
Rheilffordd / tramffordd / trafnidiaeth	11	731,338	695,361	-4.9%
Canolfan wyddoniaeth / dechnoleg	3	512,025	306,033	-40.2%
Parc thema / hamdden	1	796,149	772,000	-3.0%
Atyniad bywyd gwylt neu warchodfa natur	33	3,319,071	3,546,665	+6.9%
Arall	2	35,506	29,742	-16.2%
CYFANSWM	171	15,775,100	16,472,592	+4.4%

Sampl: atyniadau a ddarparodd ddata ar gyfer 2018 a 2017

DS: Rhybudd: Samplau bach

Gan edrych ar y data yn ôl perchenogaeth: ymweliadau ag atyniadau Cyfoeth Naturiol Cymru a gafodd eu cynnwys yn y ddwy flynedd brofodd y cynnydd mwyaf yn 2018 (cynnydd o 9.8% o un flwyddyn i'r llall). Roedd cynnydd mawr yn amlwg ar gyfer atyniadau mewn perchnogaeth breifat ac atyniadau'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol hefyd (cynnydd o 7.2% a 6.3% yn y drefn honno)

Gwelwyd cynnydd bach yn yr ymweliadau ag atyniadau Amgueddfa Cymru a'r rhai a berchnogir gan awdurdodau lleol / Parciau Cenedlaethol hefyd. Mewn cyferbyniad, bu gostyngiadau o un flwyddyn i'r llall yn niferoedd yr ymweliadau â safleoedd Cadw a'r RSPB a gafodd eu cynnwys yn y ddwy flynedd.

Tabl 5.5: Cymharu ffigyrau ymwelwyr blynyddol ar y cyfan 2018 / 2017 yn ôl perchnogaeth

Perchnogaeth	Sampl	Nifer yr ymweliadau yn 2017	Nifer yr ymweliadau yn 2018	Newid canrannol
Cadw	24	1,389,582	1,296,135	-6.7%
Awdurdod Lleol	26	2,771,607	2,815,458	+1.6%
Amgueddfa Cymru	7	1,756,130	1,785,208	+1.7%
Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol	20	1,542,338	1,638,905	+6.3%
Cyfoeth Naturiol Cymru	25	2,142,323	2,352,844	+9.8%
Perchennog preifat / ymddiriedolaeth	66	5,853,588	6,275,771 ¹⁹	+7.2%
RSPB	3	319,532	308,271	-3.5%
CYFANSWM	171	15,775,100	16,472,592	+4.4%

Sail: atyniadau a ddarparodd ddata ar gyfer 2018 a 2017

DS: Rhybudd: Samplau bach

5.2 Cymharu taliadau mynediad ar gyfer atyniadau â thâl

Cododd taliadau mynediad ar gyfer oedolion mewn atyniadau â thâl a ddarparodd ddata ar gyfer 2018 a 2017 ychydig dros 1% o un flwyddyn i'r llall, o gyfartaledd o £8.48 yn 2017 i £8.59 yn 2018; cododd taliadau mynediad cyfartalog ar gyfer plant ychydig yn fwy dros y cyfnod (3%) – gweler Tabl 5.6 dros y dudalen.

¹⁹ Mae'r ffigwr hwn yn cynnwys Canolfan Mileniwm Cymru, a allai gael ei chategoreiddio fel 'safle manwerthu neu leoliad ar gyfer ... perfformiadau ... theatrig', ac nad yw'n cyd-fynd yn dwt â'r dosbarthiad o atyniad, gan nad 'busnes unigol, o dan reolaeth unigol' ydyw, a bod yn fanwl, ond yn hytrach mae'n cynnwys theatr, adeilad o bwys pensaernïol, caffis ac orielau celf. Nid yw'r ffigyrau ymwelwyr a gynhwysir yn yr adroddiad hwn ar gyfer Canolfan Mileniwm Cymru yn cynnwys pobl sy'n mynd i'r theatr, nac ymwelwyr y mae prif ddiben eu hymweliad yn ymwneud â'r theatr (e.e. gwerthiannau tocynnau / casglu tocynnau ac ati). Am y rheswm hwn, caiff Canolfan Mileniwm Cymru ei rhestru yn y tudalennau canlynol, gan gydnabod nad yw'n cyfateb i'r diffiniad uchod o atyniad twristiaeth ym mhob ystyr. Rhaid ystyried hyn wrth gymharu â chofnodion eraill.

Tabl 5.6: Cymharu taliadau mynediad cyfartalog oedolion a phlant (fesul atyniad â thâl) yn 2018 / 2017

Tâl mynediad cyfartalog	2017	2018	Newid
Oedolion	£8.48	£8.59	+1.3%
Plant	£5.29	£5.45	+3.0%

Sampl: pob atyniad â thâl a ddarparodd ddata ar gyfer 2018 a 2017 (82)

Mae Tabl 5.7 isod yn dangos dosbarthiad taliadau mynediad ar gyfer atyniadau yn ôl band codi tâl yn 2018 o'i gymharu â 2017. Roedd bron i bedwar atyniad ym mhob deg a gymerodd ran yn y ddwy flynedd (39%) yn codi tâl mynediad cyfartalog o £8.00 neu fwy ar ymwelwyr yn 2018. Ym mhen arall y raddfa, roedd bron i un atyniad ym mhob deg (8.5%) yn codi £3.99 neu lai ar ymwelwyr yn 2018.

Tabl 5.7: Dosbarthiad taliadau mynediad ar gyfer oedolion yn ôl amrediad yn 2018 / 2017

Tâl mynediad cyfartalog	2017	2018
Llai na £1.00	2.4%	2.4%
£1.01 - £1.99	1.2%	1.2%
£2.00 - £2.99	1.2%	1.2%
£3.00 - £3.99	3.7%	3.7%
£4.00 - £4.99	17.1%	19.5%
£5.00 – £5.99	12.2%	9.8%
£6.00 - £6.99	14.6%	14.6%
£7.00 - £7.99	12.2%	8.5%
£8.00 a throsodd	35.4%	39.0%

Sampl: yr holl atyniadau â thâl a ddarparodd ddata ar gyfer 2018 a 2017 (82)

Roedd taliadau mynediad cyfartalog yn 2018 ar gyfer yr holl atyniadau â thâl a ddarparodd ddata ar gyfer 2018 ar eu uchaf yng Ngogledd Cymru (£11.21 ar gyfer oedolion; £8.82 ar gyfer plant) o'i gymharu â chyfartaledd Cymru gyfan o £9.42 ar gyfer oedolion a £6.74 ar gyfer plant. Maent ar eu hisaf yng Nghanolbarth Cymru (£8.28 ar gyfer oedolion; £4.84 ar gyfer plant) – gweler Tabl 5.8 dros y dudalen.

Tabl 5.8: Taliadau mynediad cyfartalog yn ôl rhanbarth yng Nghymru

Rhanbarth yng Nghymru	Sampl	Mynediad cyfartalog ar gyfer oedolyn	Mynediad cyfartalog ar gyfer plentyn
Canolbarth	17	£8.28	£4.84
Gogledd	52	£11.21	£8.82
De-ddwyrain	30	£7.75	£5.05
De-orllewin	33	£8.64	£5.90
CYFANSWM	132	£9.42	£6.74

Sampl: yr holl atyniadau â thâl a ddarparodd ddata ar gyfer 2018

Gan edrych ar daliadau mynediad yn ôl categori yn 2018, taliadau mynediad cyfartalog ar gyfer atyniadau antur a gweithgareddau oedd uchaf (£21.55 ar gyfer oedolion; £20.36 ar gyfer plant). Roedd y taliadau mynediad cyfartalog isaf yn cael eu codi mewn amgueddfeydd ac orielau yn 2018 (£5.37 ar gyfer oedolyn; £3.26 ar gyfer plentyn) – gweler Tabl 5.9 isod.

Tabl 5.9: Taliadau mynediad cyfartalog yn ôl categori'r atyniad

Categori'r atyniad	Sampl	Mynediad cyfartalog ar gyfer oedolyn	Mynediad cyfartalog ar gyfer plentyn
Antur / gweithgareddau	11	£21.55	£20.36
Parc gwledig / gardd	7	£8.17	£3.94
Fferm	2	£12.00	£10.50
Atyniad bwyd neu ddiod	2	£9.50	Am ddim i blant
Eiddo hanesyddol	50	£6.98	£4.95
Atyniad diwydiannol / crefft	5	£8.50	£6.67
Amgueddfa / oriel gelf	19	£5.37	£3.26
Rheilffordd / tramffordd / trafndiaeth	14	£13.36	£7.76
Canolfan wyddoniaeth / dechnoleg	3	£8.00	£5.67
Parc thema / hamdden	5	£13.40	£10.40
Atyniad bywyd gwylt neu warchodfa natur	12	£9.78	£6.44
Arall	2	£3.50	£5.50
CYFARTALEDD AR Y CYFAN	132	£9.42	£6.74

Sail: yr holl atyniadau â thâl a ddarparodd ddata ar gyfer 2018 **DS: Rhybudd: Samplau bach**

O ran perchnogaeth ar atyniadau, roedd taliadau mynediad cyfartalog ar gyfer atyniadau mewn perchnogaeth breifat ar eu uchaf yn 2018 (£11.61 ar gyfer oedolion; £9.00 ar gyfer plant), gydag atyniadau'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn dilyn (£9.33 ar gyfer oedolion; £4.65 ar gyfer plant).

Roedd y taliadau mynediad cyfartalog isaf yn cael eu codi yn atyniadau'r RSPB (er mai dim ond tri atyniad â thâl oedd yn y sampl) (£5.67 ar gyfer oedolion a £3.00 ar gyfer plant) ac atyniadau Cadw (£5.67 ar gyfer oedolion a £3.44 ar gyfer plant) – gweler Tabl 5.10 isod.

Tabl 5.10: Taliadau mynediad cyfartalog yn ôl perchnogaeth

Categori'r atyniad	Sampl	Mynediad cyfartalog ar gyfer oedolion	Mynediad cyfartalog ar gyfer plant
Cadw	24	£5.76	£3.44
Awdurdod Lleol / Parc Cenedlaethol	15	£6.21	£4.31
Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol	22	£9.33	£4.65
Perchennog preifat / ymddiriedolaeth	68	£11.61	£9.00
RSPB	3	£5.67	£3.00
CYFARTALEDD AR Y CYFAN	132	£9.42	£6.74

Sampl: yr holl atyniadau â thâl a ddarparodd ddata ar gyfer 2018

DS: Rhybudd: Samplau bach

6. Gweithrediadau

6.1 Symudiad refeniw gros

Mae'r adran hon yn darparu trosolwg o'r refeniw gros a gynhyrchwyd o daliadau mynediad a gweithgareddau marchnata. Dylid nodi, fel yn adrannau blaenorol yr adroddiad, nad atebodd yr holl ymatebwyr yr holl gwestiynau, ac felly mae maint y sampl yn newid yn ôl y cwestiwn.

Adroddodd bron i hanner (47.1%) yr atyniadau a gymerodd ran gynnydd mewn refeniw gros yn 2018, canran a oedd yn debyg iawn i'r flwyddyn flaenorol. Nododd bron i bedwar ym mhob deg (36.5%) lefel debyg o refeniw gros yn 2018 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol (i lawr o 40.1% yn 2017), tra nododd tuag un ym mhob chwech (16.4%) fod eu refeniw wedi gostwng o un flwyddyn i'r llall (i fyny o 12.6% yn 2017) – gweler Tabl 6.1 isod.

Tabl 6.1: Symudiad refeniw gros dros amser

Newid mewn refeniw gros	2017 o'i gymharu â 2016 % yr atyniadau	2018 o'i gymharu â 2017 % yr atyniadau
I fyny	47.3%	47.1%
Tebyg	40.1%	36.5%
I lawr	12.6%	16.4%
Sampl	182	189

Sampl: pob atyniad a ddarparodd ddata ar gyfer 2018 / 2017

Ar y cyfan, cynyddodd refeniw gros cyfartalog 3.3% yn 2018, sy'n debyg i'r cynnydd o 3.1% a nodwyd yn 2017. Nododd bron i chwe atyniad ym mhob deg (56.1%) na fu unrhyw newid mewn refeniw o un flwyddyn i'r llall.

Mae Tabl 6.2 dros y dudalen yn dangos hyn mewn mwy o fanylder, ac yn dangos amrediad y symudiad refeniw gros ar draws y sampl.

Tabl 6.2: Symudiad refeniw cyfartalog yn ôl amrediad 2018 / 2017

Amrediad symudiad refeniw gros	2017 % yr atyniadau	2018 % yr atyniadau
-50% neu fwy	0.8%	0.8%
-21% i -50%	1.6%	0.8%
-11% i -20%	1.6%	4.9%
-1% i -10%	5.7%	8.1%
0% (dim newid)	60.2%	56.1%
+1% i +10%	16.3%	13.0%
+11% i +20%	7.3%	8.1%
+21% i +50%	4.9%	5.7%
+50% neu fwy	1.6%	2.4%
TUEDD GYFARTALOG	+3.1%	+3.3%

Sampl: yr holl atyniadau a ddarparodd ddata ar gyfer 2017 (123) / 2018 (123)

Yn 2018, atyniadau bwyd a diod ac atyniadau bywyd gwylt / gwarchodfeydd natur nododd y cynnydd uchaf mewn refeniw gros o un flwyddyn i'r llall (+13.5% a +13% yn y drefn honno). Nododd atyniadau fferm / bridiau prin ac antur / gweithgareddau gynnydd cyfartalog mawr mewn refeniw gros yn 2018 o'i gymharu â 2017 hefyd (sef 11.5% a 6.8% yn y drefn honno).

Mewn cyferbyniad, profodd atyniadau rheilffordd / trafnidiaeth ostyngiad o un flwyddyn i'r llall o 4.7%.

Sylwer fod y sampl o atyniadau a gyfrannodd ddata yn 2018 a 2017 yn wahanol – gweler Tabl 6.3 dros y dudalen.

Tabl 6.3: Symudiad refeniw cyfartalog yn ôl categori'r atyniad 2018 / 2017

Categori'r atyniad	2017 symudiad refeniw cyfartalog	2018 symudiad refeniw cyfartalog
Atyniad antur/gweithgareddau	+3.3%	+6.8%
Parc gwledig / gardd	+11.7%	-0.9%
Fferm / bridiau prin	+6.0%	+11.5%
Atyniad bwyd neu ddiod	+7.5%	+13.5%
Eiddo hanesyddol	-0.5%	+5.7%
Atyniad diwydiannol/crefft	+3.4%	+1.7%
Amgueddfa / oriel gelf	+2.1%	+1.9%
Atyniad rheilffordd / trafnidiaeth	-1.9%	-4.7%
Canolfan wyddoniaeth/dechnoleg	+8.0%	Amh.
Atyniad â thema / parc hamdden	+4.0%	-1.0%
Atyniad bywyd gwyllt neu warchodfa natur	+9.1%	+13.0%
Arall	0.0%	0.0%
CYFANSWM	+3.1%	+3.3%

Sampl: yr holl atyniadau a ddarparodd ddata ar gyfer 2017 (123) / 2018 (123)

6.2 Cyflogaeth 2018

Gofynnwyd i weithredwyr atyniadau ddarparu dadansoddiad o gyflogeion a gwirfoddolwyr mewn gweithgareddau sy'n gysylltiedig â thwristiaeth yn 2018. Er bod yr holl atyniadau wedi ymateb i'r rhan hon o'r arolwg, dylid cadw mewn cof mai amcangyfrifon o niferoedd gweithwyr a roddodd rhai atyniadau.

Fel yn 2017, gwirfoddolwyr di-dâl oedd yn rhoi cyfrif am y gyfran fwyaf o weithwyr ar gyfer yr atyniadau hynny a gymerodd ran yn yr arolwg (47.2%) er bod y gyfran hon wedi gostwng o un flwyddyn i'r llall. Roedd staff llawn-amser yn rhoi cyfrif am bron i dri gweithiwr ym mhob deg yn 2018 (27.7%) tra bo staff rhan-amser yn rhoi cyfrif am gyfran ychydig yn llai (25.1%). Yn wahanol i

sefyllfa gwirfoddolwyr, roedd gweithwyr yn fwy tebygol o fod yn barhaol na thymhorol – gweler Tabl 6.4 isod.

Tabl 6.4: Cyfanswm y cyflogeion a nodwyd yn 2018

Math o gyflogai		Nifer y cyflogeion	%
Parhaol	Llawn-amser	1,804	19.1%
	Rhan-amser	1,012	10.7%
	Gwirfoddolwyr di-dâl	927	9.8%
Tymhorol	Llawn-amser	815	8.6%
	Rhan-amser	1,360	14.4%
	Gwirfoddolwyr di-dâl	3,535	37.4%
CYFANSWM		9,453	100.0%

Sampl: yr holl atyniadau a ddarparodd ddata ar gyfer 2018 (248)

Mae proffil cyflogeion yn ôl y math o atyniad yn amrywio'n sylweddol. Mae gweithlu rhai mathau o atyniadau'n cynnwys mwy o weithwyr tymhorol nag unrhyw fath arall. Er enghraifft, mae gan atyniadau â thema / parciau hamdden, eiddo hanesyddol, parciau gwledig / gerddi ac atyniadau fferm / bridiau prin niferoedd llawer uwch o weithwyr tymhorol nag o weithwyr parhaol. Ar gyfer eiddo hanesyddol a pharciau gwledig / gerddi, gwirfoddolwyr di-dâl oedd trwch eu gweithwyr tymhorol yn 2018.

Roedd categorïau atyniadau eraill gan gynnwys canolfannau gwyddoniaeth / technoleg, amgueddfeydd / orielau celf ac atyniadau diwydiannol / crefft yn llawer mwy tebygol o fod â gweithwyr parhaol nag oeddent o fod â gweithwyr tymhorol.

Eiddo hanesyddol, parciau gwledig / gerddi a rheilffyrdd / tramffyrdd / atyniadau trafnidiaeth sydd fwyaf tebygol o fod â gwirfoddolwyr di-dâl, a pharciau thema, atyniadau antur / gweithgareddau ac atyniadau gwyddoniaeth / technoleg sydd leiaf tebygol – gweler Tabl 6.5 dros y dudalen.

Tabl 6.5: Cyfanswm y cyflogeion yn ôl categori'r atyniad a nodwyd yn 2018

Categori'r atyniad	Sampl		Parhaol				Tymhorol			
			FT	PT	UV	CYF.	FT	PT	UV	CYF.
Atyniad antur / gweithgareddau	16	Nifer	196	64	3	263	187	111	23	321
		%	33.6%	11.0%	0.5%	45.0%	32.0%	19.0%	3.9%	55.0%
Parc gwledig / gardd	18	Nifer	186	72	19	277	47	94	632	773
		%	17.7%	6.9%	1.8%	26.4%	4.5%	9.0%	60.2%	73.6%
Fferm / bridiau prin	2	Nifer	52	11	0	63	87	56	1	144
		%	25.1%	5.3%	0.0%	30.4%	42.0%	27.1%	0.5%	69.6%
Atyniad bwyd neu ddiod	5	Nifer	11	3	2	16	1	6	20	27
		%	25.6%	7.0%	4.7%	37.2%	2.3%	14.0%	46.5%	62.8%
Eiddo hanesyddol	57	Nifer	233	226	97	556	40	231	1,568	1,839
		%	9.7%	9.4%	4.1%	23.2%	1.7%	9.6%	65.5%	76.8%
Atyniad diwydiannol / crefft	12	Nifer	51	32	25	108	23	39	14	76
		%	27.7%	17.4%	13.6%	58.7%	12.5%	21.2%	7.6%	41.3%
Amgueddfa / oriel gelf	61	Nifer	588	402	438	1,428	36	326	521	883
		%	25.4%	17.4%	19.0%	61.8%	1.6%	14.1%	22.5%	38.2%
Rheilffordd / tramffordd / trafnidiaeth / taith	16	Nifer	160	24	120	304	82	62	380	524
		%	19.3%	2.9%	14.5%	36.7%	9.9%	7.5%	45.9%	63.3%
Canolfan wyddoniaeth / dechnoleg	3	Nifer	43	42	0	85	12	33	6	51
		%	31.6%	30.9%	0.0%	62.5%	8.8%	24.3%	4.4%	37.5%
Atyniad â thema / parc hamdden	6	Nifer	88	16	0	104	182	241	0	423
		%	16.7%	3.0%	0.0%	19.7%	34.5%	45.7%	0.0%	80.3%
Atyniad bywyd gwylt / gwarchodfa natur	48	Nifer	180	81	222	483	114	151	370	635
		%	16.1%	7.2%	19.9%	43.2%	10.2%	13.5%	33.1%	56.8%
Arall	4	Nifer	16	39	1	56	4	10	0	14
		%	22.9%	55.7%	1.4%	80.0%	5.7%	14.3%	0.0%	20.0%
CYFANSWM	248		1,804	1,012	927	3,743	815	1,360	3,535	5,710

Sampl: yr holl atyniadau a ddarparodd ddata ar gyfer 2018

FT = llawn-amser; PT = rhan-amser; UV = gwirfoddolwr di-dâl

DS: Rhybudd: Samplau bach

Mae Tabl 6.6 isod yn dangos sut y mae'r gweithlu mewn atyniadau yng Nghymru wedi newid rhwng 2017 a 2018. Sylwer bod y rhain yn samplau gwahanol, ac nad ydynt yn adlewyrchu union newidiadau cyfatebol ymysg yr un atyniadau.

Ychydig o newid y mae ffigyrau 2018 yn ei ddangos yn y gweithlu ar y cyfan mewn atyniadau a gymerodd ran, gyda chyfanswm y gweithwyr ar lefel debyg i 2017 (sef 9,453 yn 2018, o'i gymharu â 9,376 yn 2017). Ceir nifer o newidiadau yng nghategoriâu'r gweithwyr, serch hynny: yn gyntaf, mae nifer y staff (yn rhai llawn-amser a rhan-amser, yn ogystal â pharhaol a thymhorol) wedi cynyddu o un flwyddyn i'r llall; ar yr un pryd, mae nifer y gwirfoddolwyr di-dâl a nodwyd wedi gostwng (yn arbennig y rhai sy'n gwirfoddoli trwy gydol y flwyddyn) – gweler Tabl 6.6 isod.

Tabl 6.6: Cyfanswm y cyflogeion a nodwyd yn 2018 a 2017

Math o gyflogai		Nifer y cyflogeion 2017	Nifer y cyflogeion 2018	% y newid
Parhaol	Llawn-amser	1,576	1,804	+14.5%
	Rhan-amser	894	1,012	+13.2%
	Gwirfoddolwyr di-dâl	2,041	927	-54.6%
Tymhorol	Llawn-amser	364	815	+23.9%
	Rhan-amser	642	1,360	+11.8%
	Gwirfoddolwyr di-dâl	3,859	3,535	-8.4%
CYFANSWM		9,376	9,453	+0.8%

Sampl: yr holl atyniadau a ddarparodd ddata ar gyfer 2017 (237) / 2018 (248)

6.3 Gwariant ar farchnata 2018 / 2017

Fel yn 2017, nododd bron i dri chwarter yr atyniadau a gymerodd ran yng ngwaith ymchwil 2018 ac a atebodd y cwestiwn hwn (73.6%) na fu unrhyw newid yn eu gwariant ar farchnata yn 2018 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Dywedodd ychydig yn fwy o atyniadau a atebodd y cwestiwn hwn fod cynnydd wedi bod yn eu gwariant ar farchnata o un flwyddyn i'r llall nag a ddywedodd fod gostyngiad wedi bod, gyda lefelau o 16.0% a 10.4% yn y drefn honno – gweler Tabl 6.7 dros y dudalen.

Tabl 6.7: Lefelau gwariant ar farchnata – 2018 o'i gymharu â 2017

Newid mewn gwariant	Nifer yr atyniadau	% yr atyniadau
I fyny	34	16.0%
Tebyg	156	73.6%
I lawr	23	10.4%
Sampl	213	100.0%

Sampl: yr holl atyniadau a ddarparodd ddata ar gyfer 2018 (213)

7. Proffil ymwelwyr 2018

Ar gyfer yr holl fathau o atyniadau ac eithrio atyniadau â thema / parciau hamdden ac 'arall' (a oedd yn cynnwys dwy ganolfan weithgareddau dan do) oedolion oedd y mwyafrif o ymwelwyr ag atyniadau. Ar y cyfan, roedd oedolion yn rhoi cyfrif am oddeutu saith ymweliad ym mhob deg (70.4%) a phlant am oddeutu tri ymweliad ym mhob deg (29.6%) yn 2018.

Roedd plant yn rhoi cyfrif am dros hanner yr ymweliadau ag atyniadau â thema / parciau hamdden ac 'arall' (sef 52.5% a 53.8% o'r ymweliadau yn y drefn honno). Fe wnaeth atyniadau antur / gweithgareddau ac atyniadau gwyddoniaeth / technoleg ddenu lefelau uwch na'r cyfartaledd o ymweliadau gan blant hefyd (sef 40.8% a 40.7% yn y drefn honno). Mewn cyferbyniad, roedd atyniadau bwyd neu ddiod, atyniadau diwydiannol / crefft ac amgueddfeydd ac orielau lawer yn fwy tebygol o gael ymweliadau gan oedolion na chan blant – roedd ymweliadau gan oedolion yn rhoi cyfrif am gyfartaledd o 93%, 80% a 78.1% yn y drefn honno o ymweliadau â'r categorïau hyn o atyniadau yn 2018 – gweler Tabl 7.1 dros y dudalen.

Tabl 7.1: Cyfran yr ymweliadau gan oedolion a phlant yn ôl categori'r atyniad yn 2018

Categori'r atyniad	Sampl	% gyfartalog yr ymweliadau gan oedolion	% gyfartalog yr ymweliadau gan blant
Atyniad antur/ gweithgareddau	16	59.2%	40.8%
Parc gwledig/ gardd	18	66.6%	33.4%
Fferm/ bridiau prin	2	62.5%	37.5%
Atyniad bwyd neu ddiod	5	93.0%	7.0%
Eiddo hanesyddol	57	67.8%	32.2%
Atyniad diwydiannol/crefft	12	80.0%	20.0%
Amgueddfa / oriel gelf	61	78.1%	21.9%
Rheilffordd / tramffordd / taith	16	70.3%	29.6%
Canolfan wyddoniaeth/ dechnoleg	3	59.3%	40.7%
Atyniad â thema/ parc hamdden	6	47.5%	52.5%
Atyniad bywyd gwyllt/ gwarchodfa natur	48	70.6%	29.4%
Arall	4	46.3%	53.8%
CYFANSWM	248	70.4%	29.6%

Sampl: yr holl atyniadau a ddarparodd ddata ar gyfer 2018 - **DS: Rhybudd: Samplau bach**

Roedd bron i hanner yr ymwelwyr ag atyniadau yng Nghymru yn 2018 yn ymwelwyr lleol (48.6%), gyda phedwar ym mhob deg (40.3%) yn dod o weddill y DU ac oddeutu un ym mhob deg (11.1%) yn dod o wlad dramor.

Atyniadau diwydiannol / crefft, atyniadau bwyd neu ddiod, eiddo hanesyddol a chanolfannau gwyddoniaeth / technoleg yng Nghymru gafodd y gyfran uchaf o ymwelwyr tramor (sef 17.2%, 15%, 14.7% ac 14.5% yn y drefn honno, o'i gymharu â chyfartaledd o 11.1%), a'r nifer fach o atyniadau eraill ('arall') yn y sampl²⁰ gafodd y gyfran uchaf o ymwelwyr lleol (sef 70% o'i gymharu â chyfartaledd o 48.7%). Atyniadau rheilffordd / tramffordd / trafndiaeth a bwyd

²⁰ Mae 'arall' lle mae atyniadau yn y cwestiwn yn cynnwys dwy ganolfan gweithgareddau plant, harbwr a chanolfan groeso / ymwelwyr.

neu ddiod oedd fwyaf tebygol o ddenu ymwelwyr o weddill y DU (54.7% a 50% yn y drefn honno, o'i gymharu â chyfartaledd o 40.3%) – gweler Tabl 7.2 isod.

Tabl 7.2: Tarddiad ymwelwyr yn ôl categori'r atyniad 2018

Categori'r atyniad	Sampl	% gyfartalog yr ymwelwyr tramor	% gyfartalog yr ymwelwyr lleol	% gyfartalog yr ymwelwyr o weddill y DU
Atyniad antur/ gweithgareddau	16	6.1%	56.8%	37.1%
Parc gwledig/ gardd	18	8.0%	57.5%	34.5%
Fferm/ bridiau prin	2	3.0%	66.0%	31.0%
Atyniad bwyd neu ddiod	5	15.0%	35.0%	50.0%
Eiddo hanesyddol	57	14.7%	41.6%	43.7%
Atyniad diwydiannol/crefft	12	17.2%	36.7%	46.1%
Amgueddfa / oriel gelf	61	11.4%	53.5%	35.1%
Rheilffordd / tramffordd / taith	16	12.3%	33.0%	54.7%
Canolfan wyddoniaeth/ dechnoleg	3	14.5%	46.5%	39.0%
Atyniad â thema/ parc hamdden	6	10.2%	51.7%	38.2%
Atyniad bywyd gwyllt/ gwarchodfa natur	48	9.6%	43.2%	47.1%
Arall	4	6.3%	70.0%	23.8%
CYFANSWM	248	11.1%	48.6%	40.3%

Sampl: atyniadau a ddarparodd ddata yn 2018 - **DS: Rhybudd: Samplau bach**

Amcangyfrifwyd fod ymwelwyr a oedd yn cyrraedd mewn grwpiau a drefnwyd neu deithiau'n rhoi cyfrif am gyfartaledd o 13.1% o'r ymweliadau a wnaed yn 2018 ar draws pob atyniad a gymerodd ran (yr un gyfran ag yn 2017, y flwyddyn gyntaf y casglwyd yr wybodaeth hon).

Roedd cyfran yr ymwelwyr mewn grwpiau a drefnwyd / teithiau ar ei uchaf ar gyfer categorïau atyniadau canolfannau gwyddoniaeth / technoleg ac

atyniadau diwydiannol / crefft (sef 30.3% ac 17.2% yn y drefn honno) ac ar ei hisaf ar gyfer atyniadau fferm / bridiau prin ac eiddo hanesyddol yn y sampl (sef 6.5% a 9.7% yn y drefn honno) – gweler Tabl 7.3 isod.

Tabl 7.3: Cyfran yr ymwelwyr mewn grwpiau a drefnwyd / teithiau yn ôl categori yn 2018

Categori'r atyniad	Sampl	% gyfartalog yn ymweld mewn grwpiau / teithiau
Atyniad antur/ gweithgareddau	16	14.4%
Parc gwledig/ gardd	18	10.0%
Fferm/ bridiau prin	2	6.5%
Atyniad bwyd neu ddiod	5	11.4%
Eiddo hanesyddol	57	9.7%
Atyniad diwydiannol/crefft	12	17.2%
Amgueddfa / oriel gelf	61	15.4%
Rheilffordd / tramffordd / taith	16	14.8%
Canolfan wyddoniaeth/ dechnoleg	3	30.3%
Atyniad â thema/ parc hamdden	6	12.2%
Atyniad bywyd gwyllt/ gwarchodfa natur	48	11.3%
